

# ECO'R WYDDFA

Rhif 240

RHAGFYR 1997

Pris 30c

## Gwasanaeth Arbennig i'r Undeb



Mae Alun Wyn Evans o Ddeiniolen wedi derbyn medal arbennig i gydnabod ei wasanaeth ffyddlon i Undeb y Gweithwyr Cyffredinol a Thrafnidiol (TGWU). Cyflwynwyd y fedal iddo yng Ngwesty'r Celt yng Nghaernarfon ddiwedd mis Hydref gan Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb, Bill Morris.

Y fedal aur hon am wasanaeth anghyffredin yw'r anrhydedd uchaf y gall yr Undeb ei roi i unrhyw un o'i aelodau. Mae'n debyg mai dyma'r tro cyntaf i neb o Wynedd dderbyn y fedal, ac mae ei gyd-Undebwyr a'i gydnabod yn falch dros ben bod Alun Wyn Evans wedi cael ei gydnabod am ei waith caled dros yr Undeb a'i aelodau.

Bu Alun Wyn yn aelod o'r Undeb ers 50 mlynedd. Ymaelododd gyntaf pan ddechreuodd weithio yn Chwael Dinorwig yn 1947. Yn fuan wedyn daeth yn gynrychiolydd undeb. Treuliodd gyfnod o bedair blynedd yn ddiweddarach yn gweithio yn y pwl glo yn Nhreharris. Wedi dychwelyd adref i Ddeiniolen ailafaelodd yn ei gyfrifoldebau fel cynrychiolydd y gweithwyr, a dyna

fu ei hanes wedyn nes i'r chwael gau yn 1969. Bu'n gweithio yn y chwael wedyn yn ystod cyfnod adeiladu'r orsaf drydan gan barhau i wasanaethu'r Undeb hyd nes gorfod ymddeol ar sail iechyd.

Parhaodd yn weithgar gyda gwaith yr Undeb yn dilyn ei ymddeoliad gan weithio yn arbennig o galed er mwyn y gweithwyr hynny oedd yn dioddef salwch yr ysgyfaint. Brwydrodd er mwyn sicrhau iawndal i'r gweithwyr gan drefnu deisebau a dadlau eu hachos. Y broblem fwyaf a'i wynebai ef a'i gydymgyrchwyr ddechrau'r 70au oedd bod y Ddeddfwriaeth yn golygu na allai gweithwyr Dinorwig gael iawndal am fod y chwael erbyn hynny wedi cau. Ond trwy ymdrechion rhai fel Alun Wyn a'r Aelodau Seneddol Dafydd Wigley a Dafydd Elis Thomas llwyddwyd i sicrhau newid yn y Ddeddf. Mae Alun Wyn wedi parhau'n weithgar er sicrhau tegwch i'r chwaelwyr sydd wedi cael trafferth i brofi eu bod yn deilwng o'r iawndal sy'n ddyledus iddynt.

Llongyfarchir ef ar dderbyn yr anrhydedd gan ei Undeb.

## Gwasanaeth Arbennig i'r Blaid



Nos Wener, 14 Tachwedd, trefnwyd cyfarfod a chinio arbennig gan bwyllgor rhanbarth Arfon o Blaid Cymru i gydnabod gwasanaeth Phyllis Ellis o gangen Llanrug wedi deng mlynedd ar hugain fel ysgrifennydd y pwyllgor.

Cafwyd teyrngedau arbennig a chlodwïw gan Marc Phillips, Caerdydd, Cadeirydd y Blaid; Dafydd Wigley, A.S.; Y Cynghorydd Pat Larsen, Cadeirydd Cyngor Gwynedd, gyda Dewi Rhys, Botwnnog yn arwain y cyfarfod.

Cyflwynodd Helen Gwyn anrhegion hardd i Phyllis yn cynnwys powlen wydr wedi'i haddurno gyda chyfarfarchion perthnasol a hefyd frodwaith gywrain o waith Olwen Rhys.

Diolchodd y Cynghorydd Eurig Wyn i Phyllis am ei theymgarwch a'i chefnogaeth i holl swyddogion y Blaid yn Arfon yn eu tro ac adroddodd benillion addas i'r amgylchiad.

Darllenodd Richard Morris Jones, y Prifardd Myrddin ap Dafydd a Dafydd Iwan englynion a gyfansoddwyd ganddynt yn arbennig i'r achlysur. Roedd yr adloniant i ddiweddu'r noson yng ngofal y grŵp gwerin poblogaidd 'Pigyn Clust'.

### I PHYLLIS

Un hwyr yn ei pherllan hi — wedi oes  
Mor daer o ddal ati,  
Agor wnaeth ein blagur ni  
A Mai ydoedd, un Medi.

MYRDDIN AP DAFYDD

### I PHYLLIS

Phyllis, o'i phur hoff alwad — i weini  
I gynnal ei henwlad  
Ei chur yn un a'i chaniad  
A'i briw wrth ddarganfod brad.

RICHARD MORRIS JONES

### I PHYLLIS GYDA DIOLCH

Un eiddil, heb heneiddio — un gadarn  
A gadawodd heb ildio  
Y ffydd pan oedd pawb ar ffo  
Un i aros i'n herio.

Phyllis mae geiriau'n ffaelu — o gofio  
Mor gyfan d'aberthu  
Dros blaid bach, dros blaid a fu  
Nawr plaid fawr ein hyfory.

DAFYDD IWAN

## PWYSIG!

BYDDWN YN PLYGU Y  
RHIFYN NESAF O'R ECO  
YN FESTRI EBENESER,  
DEINIOLLEN, NOS IAU, 18  
RHAGFYR am 6.30.

RHAID CAEL NIFER O  
BOB PENTREF I WNEUD  
Y GWAITH.

Os gwelwch yn dda, peidiwch â  
dod yno gan obeithio fod y  
gwaith plygu eisoes wedi'i  
wneud — RHAID FYDD  
CAEL CYMORTH PAWB.

**PRESANT  
DOLIG  
CYNNAR!**

Dowch am banded o de  
neu goffi AM DDIM  
gyda'r rhifyn hwn o'r Eco.  
Mae'r manylion yn  
hysbyseb First Hydro.  
Llanberis  
ar dudalen 23



# ECO'R WYDDFA

Rhif 240  
RHAGFYR 1997

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd  
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth  
Cymdeithas Gelfyddydau  
Gogledd Cymru

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD  
CILFYNYDD, LLANBERIS  
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS  
LLEIFIOR, LLANRUG  
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:  
ARWEL JONES  
CAE EBONI, PENISARWAUN  
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

### GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel,  
(01248) 670115

### DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,  
Deiniolen (870394)

### FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,  
Llanrug (677263)

### DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,  
Bangor (01248) 353337 neu 871925

### TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,  
Llanrug (675605)

### TREFNYDD BWNDELU

Ann Gibbins, Lodi Plas Tirion, Pontrug  
(673696)

### TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (674839)

### TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,  
Llanrug (650200)

### TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

### GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran  
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-  
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn  
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,  
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,  
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,  
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,  
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion  
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn  
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Ann Cumberton,  
Gwastadnant (870356)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,  
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,  
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,  
Pantafon, Waunfawr (650570)

## Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg  
NOS IAU, RHAGFYR 18

Deunydd i law'r  
golygyddion perthnasol

NOS LUN, RHAGFYR 8

Os gwelwch yn dda

# DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

| RHIFYN     | DYDDIAD PLYGU | BLE?        | CYSYLLTU Â                 | RHIF FFÔN      |
|------------|---------------|-------------|----------------------------|----------------|
| CHWEFROR   | IONAWR 29     | WAUNFAWR    | Mrs Nan Roberts            | 650570         |
| MAWRTH     | CHWEFROR 26   | LLANRUG     | Mr Iolo Llywelyn           | 650200         |
| EBRILL     | MAWRTH 26     | CWM-Y-GLO   | Mrs Iris Rowlands          | 872275         |
| MAI        | EBRILL 30     | DEINIOLLEN  | Mr W. O. Roberts           | 871259         |
| MEHEFIN    | MAI 28        | BRYNREFAIL  | Mrs L. P. Roberts-Williams | 870580         |
| GORFFENNAF | GORFFENNAF 2  | BETHEL      | Mr Geraint Ellis           | (01248) 670726 |
| AWST       | —             | —           | —                          | —              |
| MEDI       | AWST 27       | DINORWIG    | Mr Meirion Tomos           | 870056         |
| HYDREF     | HYDREF 1      | PENISARWAUN | Mrs Ann Evans              | 872407         |
| TACHWEDD   | HYDREF 29     | LLANBERIS   | Mr Gwilym Evans            | 872034         |
| RHAGFYR    | TACHWEDD 26   | CAEATHRO    | Mr Clive James             | 677438         |

## Llythyrau

### Datblygu Llainwen

Annwyl Olygydd,

Roedd yn ddiddorol iawn darllen llythyr cynrychiolydd Rossisle Developments yn rhifyn diwethaf *Eco'r Wyddfa*. Tipyn o syndod oedd darllen honiad y cwmni bod 'cynnig ffurfiol' wedi ei wneud i drafod y datblygiad gyda'r trigolion lleol. Nid oes gennym ni na gweddill trigolion cylch Llainwen a Ffordd Tŷ Du, Llanberis unrhyw wybodaeth am y fath 'gynnig ffurfiol' gan y cwmni i ailwampio ei gynlluniau. Ni ddywedwyd dim am hyn ychwaith yn ystod ymweliad archwiliwr y Swyddfa Gymreig.

Byddai'n dda gweld copi o'r llythyr y gwnaed y 'cynnig ffurfiol' ynddo, os yw'n bodoli.

Mae ein cais i gael yr holl safle wedi ei gofrestru fel 'llecyn gwyrdd' yn mynd ymlaen. Diolch i bawb sydd wedi ein helpu i wneud y cais hwnnw ar ôl darllen yr erthygl yn yr *Eco*.

Yr eiddoch,

PADDY SMITH a TOM JONES

### Codi'r To!

Ydych chi'n ysu am gael perfformio ar y bocsy?

Mae cwmni Al Fresco yn chwilio am unigolion neu grwpiau â thalent canu a pherfformio i gymryd rhan ym mhedwaredd cyfres 'Codi'r To'.

Mae'r gyfres wedi ei sefydlu fel un o gyfresi adloniant mwyaf poblogaidd S4C ac wedi cynnwys rhai o dalentau gorau Cymru dros y blynyddoedd diwethaf.

Rydym yn chwilio am ddiddanwyr o bob math, o gantorion i gonsurwyr, ac am gynnal gwrandawiadau yng Nghaerdydd yn ystod mis Chwefror 1998. Mae'r gyfres i'w recordio yn ystod mis Gorffennaf 1998.

Os oes gennych ddiddordeb gyrrwch lun, tâp sain neu fideo ynghyd â 'chydig o wybodaeth amdanoch eich hun i:

Meinir Mai Jones

'Codi'r To'

Al Fresco

33-35 Heol y Gadeirlan  
CAERDYDD CF1 9HB

### Apêl am Fatiau Rags

'Nid tŷ sy'n gwneud cartref — nid mur a drws a ffenestr ac aelwyd — ond y pethau sydd ynddo.' (T. Rowland Hughes, *O Law i Law*).

Hoffwn wneud apêl tuag at eich darllenwyr. Mae Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis ar drothwy cyfnod cyffrous o ddatblygiadau a gwelliannau. Un o'r datblygiadau hyn yw ailddodrefnu Tŷ'r Peiriannydd fel ag ydoedd yn 1910. Un o'n prif broblemau yw cael gafael ar fatiau rags i'w gosod ar lorïau'r tŷ. Tybed a oes gan rai o'ch darllenwyr fatiau rags, mewn cyflwr da, ac y byddent yn fodlon eu rhoi inni? Opsiwn arall, wrth gwrs, yw denu eich darllenwyr i adfer yr hen grefft gan greu matiau rags i ni — oedd yna batrwm arbennig a berthynai i'r ardal yma tybed? Os mai dyna eich dymunia byddwn yn eich digolledu am unrhyw gostau — ond cofiwch drafod y pris cyn cychwyn ar y gwaith!

Bydd angen nifer helaeth o fatiau gan y bydd angen dodrefnu y rhes o dai chwarelwyr wedi i ni symud y rheini, garreg wrth garreg, o Danygrisiau yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Byddwn yn ddiolchgar iawn o unrhyw gyfraniad neu wybodaeth. Os ydych am ragor o fanylion cysylltwch â **Darren Hughes** (01286) 870630.

Yr eiddoch yn gywir,

MARED WYN SUTHERLAND

### Her i Ocsiwnia

Ydi'r ci yn dioddef o grudcymalau? Ydych chi'n chwilio am lyfr prin? Ydych chi eisiau tocyn i weld cyngerdd ond fod y tocynnau i gyd wedi eu gwerthu? Ydych chi wedi colli cysylltiad â hen gyfaill ysgol neu berthynas? Ydych chi'n chwilio am ryw beth anghyffredin? Ydych chi'n trefnu aduniad coleg neu ysgol ac angen cymorth i gysylltu â phobl? Ydych chi wedi torri hen blât ac eisiau cyngor er mwyn ei adfer i'w gyflwr blaenorol?

Os felly, rhowch alwad i dîm Ocsiwnia ar (01222) 322729, neu ysgrifennwch atom yn 'Her Ocsiwnia, Ystafell 2001, Canolfan Ddarlledu'r BBC, Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ.

Cofiwch does dim un her yn rhy fach nac yn rhy fawr. Cysylltwch rwan gydag unrhyw her ar unrhyw bwn dan haul.

### Aduniad Myfyrwyr Normal

Manteisiaf ar y cyfle i raghysbysu eich darllenwyr o ddyddiad Aduniad Myfyrwyr y Coleg Normal 1965-68.

Byddwn yn cyfarfod ar y penwythnos 11-13 Medi 1998 yng Ngwesty'r Kinmel Manor, Abergele. Gellir cael mwy o wybodaeth a manylion archebu lle drwy gysylltu ag unrhyw un o'r canlynol:

**Jean Salisbury** (Rees Davies gynt) (01745) 590329.

**Anna Davies** (Greenbank gynt) (01352) 710472

**Gareth Hughes** ('Dinbach') (01745) 583915

**Christine Hughes** (Carpenter gynt) (01248) 364727

**Merfyn Lloyd Jones** (01352) 755805

Llawer o ddiolch.

### Eisteddfod Genedlaethol Bro Ogwr 1998

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn gwahodd enwebiadau gogyfer Medal Syr Thomas Parry Williams, i'w chyflwyno yn ystod Eisteddfod Bro Ogwr 1998.

Rhoddir y Fedal i gydnabod ac anrhyddedu gwasanaeth gwirfoddol a nodedig a gyflawnwyd dros nifer helaeth o flynyddoedd ymhlith pobl ifainc mewn ardal neu gymdogaeth, yn arbennig trwy weithgareddau sy'n hyrwyddo dibenion yr Eisteddfod Genedlaethol.

Os ydych chi'n adnabod person sy'n haeddu'r anrhyddedd yna cysylltwch ag **Alma Carter** yn **Swyddfa'r Eisteddfod** am ffurflen enwebu. Rhif ffôn: (01222) 763777.

Gan edrych ymlaen at glywed oddi wrthyh.

Yn gywir,

ELFED ROBERTS  
Cyfarwyddwr





## Dawnsywyr Caernarfon ar y Brig

Daeth llwyddiant unwaith eto Ddawnsywyr Caernarfon yn yr Wyl Gerdd Dant a gynhaliwyd yn Aberystwyth ar 1 Tachwedd. Hyfforddwr y tîm yw Idwal Williams o Lanrug, a bu'n dathlu ddwywaith yr un noson gan iddo ennill y wobwr gyntaf am gyfansoddi dawnswerin dan y teitl 'Bae Ceredigion'.

Roedd hanner y tîm yn dod o fro'r Eco y tro yma — Judith Harding a Nia Lewis o Benisarwaun ac Idwal a Bethanne Williams a'u bechgyn Owain a Morgan ap Gruffydd o Lanrug.

Dyma'r chweched gwaith i'r Dawnswyr ymddangos ar lwyfan yr Wyl — pedair gwaith yn y bedair blynedd ddiwethaf — gan gipio'r brif wobwr deirgwaith i gyd, ym Mangor yn 1990; Penybont ar Ogwr yn 1995; ac eleni yn Aberystwyth yn 1997. Bydd tlws hardd Dawnswyr Talog yn aros yn y fro yma am byth.

Mae'r dawnswyr yn cyfarfod yn Yr Aelwyd, Caernarfon, bob nos Iau am 7.30 o'r gloch. I ymuno â hwy cysylltwch ag Idwal Williams ar (01286) 673485.

## GWARCHOD CYMDOGOL

Agorwyd swyddfa newydd ym Mhencadlys yr Heddlu yng Nghaernarfon yn ddiweddar — Swyddfa Gwarchod Cymdogol — gyda'r bwriad o ddod â thrigolion y sir a'r heddlu yn agosach at ei gilydd i geisio atal troseddau.

Gwirfoddolwyr ymysg cysylltwyr o wahanol ardaloedd fydd yn rhedeg y swyddfa a'r dasg gyntaf fydd ceisio diweddarau'r 650 o gynlluniau Gwarchod Cymdogol sy'n bodoli eisoes yng Ngwynedd. Oherwydd prinder amser ac adnoddau ofnir fod nifer o'r rhain bellach yn aneffeithiol.

Ar ôl cwblhau'r gwaith yma fe ellir ceisio sefydlu cynlluniau newydd mewn ardaloedd lle nad oes cynlluniau yn barod. Mae ystadegau'n profi fod troseddau wedi gostwng oddeutu 50 y cant lle mae cynllun Gwarchod Cymdogol yn bodoli.

Gwaith arall y gwirfoddolwyr fydd cadw cysylltiad â grwpiau Gwarchod Cymdogol yn y gwahanol ardaloedd. Bob bore byddant yn cael gwybodaeth am y troseddau sydd wedi digwydd yn ystod y 24 awr flaenorol. Os credir y gallai rhai o'r troseddau hynny fod yn berthnasol i grŵp neu grwpiau Gwarchod

Cymdogol — troseddau fel dwyn o foduron, dwyn beiciau, dwyn o sied neu gytiau — yna fe drosglwyddir y wybodaeth i'r cysylltwyr.

Wrth sôn am gytiau a beiciau, mae nifer o gynnyrch sy'n ymwneud â diogelwch i'r cyhoedd sydd i'w cael am brisiau cystadleuol iawn. Mae rhain yn cynnwys — pecynnau argyfwng personol; larwm rhybudd tresbaswr / sied, cytiau neu garafán; cit marcio eiddo; clo beiciau; cit canfod arian ffug.

Os am fwy o wybodaeth am unrhyw beth sy'n ymwneud ag atal troseddau cysylltwch â'ch Heddwys Cyswllt Lleol, Swyddfa Gwarchod Cymdogol (01286) 684844, neu'r Heddwys Alan Bevan, Swyddog Atal Troseddau (01286) 684815.



### ALOE VERA

Am well iechyd yn naturiol, profiwch nerth ALOE VERA. Canfuwyd iddo roi esmwythâd i lawer sy'n dioddef o afiechydon cyffredin

fel:- Cryd y Cymalau, Mygdod, Dŵr Poeth, I.B.S., Afiechydon y Croen, Diffyg Egri Afiechydon yr Arennau, Pwysau Gwaed a.y.y.b. am fwy o fanylion, cysylltwch ag Alun, Ffôn: (01248) 670746

**FFAIR NADOLIG** GYDA  
DYDD SUL, 30 TACHWEDD (1 - 5 p.m.)  
ER BUDD ADRAN TRAWSBLANNU ARENNAU RUHL

Nadolig Llawn a diolch am eich cefnogaeth oddi wrth

Alwyn a Sarah Jones

**BLODAU  
RACCA**

**PENISARWAUN**

Ffôn: (01286) 870605

**RITHOEDD CELYN  
COED NADOLIG**

Brysiwch i archebu!

Ar agor saith diwrnod yr wythnos



## OCSIWN ADDEWIDION

NOSON YN NGHWMNI'R 'BODY SHOP'

Ocsiwniar Gwadd:

**EIFION 'JONSI' JONES**

(BBC RADIO CYMRU)

yng NGWESTY SEIONT MANOR, LLANRUG

NOS IAU, 4 RHAGFYR 1997

o 7 o'r gloch ymlaen

7 — 8 o'r gloch: Arddangosfa gan 'Body Shop'

8 — 10 o'r gloch: Ocsiwn Addewidion

AMRYWIAETH EANG O ADDEWIDION A NWYDDAU  
YN YR OCSIWN

DEWCH I GYFARFOD JONSI — 'YR HEN GOES EI HUN'  
A CHAEL NOSON HWYLIOL

Tocynnau: £2 (yr elw er budd Ysgol Feithrin Llanrug)  
ar gael yn yr Ysgol Feithrin neu drwy ffonio  
Carol Williams (01286) 677766

### FFAIR GREFFTAU LLANRUG

**NOS WENER  
5 TACHWEDD**

am 7.00 o'r gloch

**Y SEFYDLIAD COFFA**

Mynediad: 50c.



AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

## FFAIR GAELAF

Diddanwr Teulu

Paentlo Wynebaw

Cerddoriaeth & Dawns Traddodiadol

Clywed Stori

Castell Codwm

Helfa Drysor

Gwelthdy & Arddangoslad

Castlo Prës

Talith Natur

Holli & Naddu Llechl  
(Holliwch eich llechen eich hun !)

Crefftau

Sloe Bypedau

Arddangosfa Nadolig gan

Blant Ysgol Bethel

(8-31 Rhagfyr 1997)


Llunlaeth

Tân Gwylt

AMGUEDDFA LECHI CYMRU  
LLANBERIS

Rhagfyr 29ain & 30ain 1997  
12.00pm - 5.00pm

TÂL MYNEDIAD





# O SIAMBAR SELWYN

'Wyt ti ishio clwad sicret?'

'Oes, ddeuda i wrth neb, ysti.'

'Wel, ma' cath ni 'di cal cathod bach.'

'Wyt ti ishio clwad sicret — sicret mawr?'

'Oes plis.'

'Ma' mami fi yn mynd i gal babi bach newydd sbon.'

O, ia, rhan o ddeialog ddiniwed a glywid ar iard yr ysgol gynradd ers talwm. Digon o waith fod cyfrinachau mor ysgytiol yn cael eu gwasgaru ar iard yr ysgol fach heddiw.

\* \* \*

'Fedrwrch chi gadw cyfrinach?'

'Medra siŵr iawn — mi wyddoch yn iawn na ddeuda i air wrth yr un enaid byw.'

A chyn i'r gyfrinach gael ei sibwrdd yn eich clust chi — rydach chi'n ysu am gael ailadrodd y sgandal wrth eich ffrind gora, gan rybuddio hwnnw neu honno i fynd ar lw i beidio ag ynan gai wrth neb. Cyn fawr o amser ni fydd y gyfrinach yn gyfrinach bellach. Ydi mae'n anodd cadw cyfrinach.

Yn eigion pur galonnau — y rhennir

Ei rhinwedd rhwng ffrindiau,

A llw hon nid yw'n lleihau

Ar ingol awr yr angau.

\* \* \*

Ym myd yr eisteddfod, boed leol neu genedlaethol — y gyfrinach

fawr i'w chadw bob blwyddyn yw — pwy yw y bardd buddugol? Does na ddim gwefr yn y seremoni os bydd enw'r bardd buddugol eisoes yn wybyddus.

Os byddwch rywdro'n ddigon ffodus i ennill prif lawryfon y Genedlaethol, peidiwch â phoeni fe gewch eich rhybuddio mewn da bryd. Fe erfynir arnoch i gau eich ceg hefyd, ac i gadw'r gyfrinach. Fe gedwais i y gryfrinach am ddau fis. Dyna' deufis pryd y troais o fod yn berson cydwybodol a gonest i fod yn gelwyddgi, y enwedig yn ystod yr wythnos cyn y 'steddfod.

Doedd hi ddim yn arferiad bob tro i hysbysu'r beridd buddugol am eu llwyddiant yn yr hen ddyddiau. Chafodd Wil Ifan mo'i goroni yn Eisteddfod y Gadair Ddu 1917. Doedd o ddim yn gwybod ei fod o wedi ennill, nes gwelodd o'r hanes yn y papur dyddiol.

Ni choronwyd Gwylfa yng Nghaerdydd 1899 (er iddo hawlio cael mynd drwy'r seremoni y diwmod canlynol). Chafodd Dyfed mo'i gadeirio ym Merthyr 1901 — pam? Wel, roedd o'n chwarae croquet yn Llandrindod ar awr fawr y cadeirio. Chafodd T. Gwynn Jones mo'i gadeirio am ei awdl fawr 'Ymadawiad Arthur' ym Mangor 1902, os cofiaf roedd

o'n helpu i gario gwair yn rhywle ar y prynhawn hwnnw.

Aeth T. H. Parry Williams yr holl ffordd i Wrecsam ar ei feic yn 1912. Doedd neb wedi deud wrtho ei fod wedi ennill y goron, ond fe ddywedwyd wrtho am aros yno tan ddydd Iau gan ei fod wedi ennill y gadair hefyd. Pan gyflawnodd y dwbwl eilwaith ym Mangor 1915, fe gadeiriwyd ei dad yn ei le. Dywedir iddo gyfansoddi ei awdl 'Eryri' pan oedd ym Mharis; ac iddo gyfansoddi ei bryddest 'Y Ddinas' (sy'n sôn am fywyd y gwter ym Mharis) tra adre yn Rhyd-ddu!

\* \* \*

Rŵan mi ddeudai gyfrinach wrthoch chi. Does dim angen i chi ei chadw hi bellach.

Yn eisteddfod Glyn-ebwy 1958 roedd y gath allan o'r cwd a phawb yn gwybod mai T. Llew Jones oedd i'w gadeirio ddydd Iau.

Yn 1959 roedd y 'Steddfod yng Nghaernarfon. Nos Lun yr wythnos honno fe fes i seiat ddifyr yng nghwmni Alun Cilie a T. Llew Jones. Roedden nhw yn aros yn y Royal. Yn hwyr y dydd fe es i i'r tŷ bach, ac yno roeddwn i'n eistedd yn dawel. Ac yno y clywais i'r gyfrinach fawr:

Llew yn deud wrth Alun, 'Rwy'n mynd a'r gader o'ma ddydd Iau.'

Tawelwch. Yna llais Alun:

'Wyt ti wedi deud wrth rhywun?'

'Naddo, dwi ddim am i'r gyfrinach fynd allan fel yng Nglyn-ebwy y llynedd.'

Aeth y ddau allan ac yn ôl i'r lolfa. Roeddwn i'n gyffro i gyd ac yn llawenhau oherwydd i mi glywed y gyfrinach fawr drwy eistedd (yn meindio fy musnes) yn nhŷ bach y Royal.

Wrth gwrs fe est at Llew a'i longyfarch gan ychwanegu fy mod i'n gweithio yn ystod yr wythnos ar un o bapurau newydd Lloegr. Yn naturiol gwadu roedd Llew, ond fe wyddwn yn iawn fod golwg go boenus arno. Fodd bynnag fe gytunon ar bunt o fet. Llew yn taeru nad oedd gwirionedd yn fy

awgrym — a minnau yr un mor bendant mai fo fyddai'n eistedd yng nghadair Caernarfon brynhawn Iau.

\* \* \*

Mewn sgwrs ar faes yr Eisteddfod y diwrnod canlynol dywedais yr hanes wrth ddau gyfaill o Fôn — y prifardd Tom Parry Jones (Tom Tŷ Pigyn) a Rolant. Ar amrantiad dyma'r ddau yn gwneud yr englyn a ganlyn. Dydw i ddim am gwblhau'r linell gynta i chi. Does dim angen i chi fod yn fardd i wneud hynny, ac mae cwblhau y gynghanedd yn eitha hawdd:

Tro gwych oedd troi i \_\_, a chlywed

Sicred fu'n hir swcru,

Chwiliwch am bunt i chwalu

Cyfrinach tŷ bach lle bu.

Y flwyddyn ddilynol fe gefais i gadair Eisteddfod Llanfachreth, ger Dolgellau, a'r beirniad oedd T. Llew Jones. Doedd o ddim yn yr eisteddfod i draddodi ei feirniadaeth. Anfonais air i ddiolch iddo gan anfon copi o'r englyn uchod gan awgrymu mai anoeth oedd dadlenu'r gyfrinach fawr mewn tawelwch tŷ bach yn oriau mân y bore.

Na, welais i byth mo'r bun — râl Cardi, yntê!

## DRAENOG



Ar ddechrau'r gaeaf dyma ŵr a gwraig o Ddeiniolen yn penderfynu bod rhaid cael un o'r cwiltiau continental yna i'w cadw'n gynnes tua Phentre Helen. Lawr i Fangor â'r ddau ryw bnawn a thalu £50 amdano. Cyrraedd adref yn y man a dadbacio'r neges o'r car. Doedd dim golwg o'r cwilt. Roeddent wedi taro'r cwilt ar y to wrth bacio'r car ym Mangor ac wedi ei adael yno. Druan o Graham, ond mae'n debyg i rywun ym Mangor gael cwilt da am ddim!



## GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG (01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches

★ Byrddau Ffasia

★ Cladio

★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

## SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★

★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★

★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★

★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL  
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



## BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858



## BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

**DIOLCH.** Dymuna Nansi a Trefor Williams, Rhos Lyn, Bethel ddiolch yn gynnes iawn i'w perthnasau, cyfeillion a chymdogion am y cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniasant ar yr achlysur hapus o ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar.

**MERCHED Y WAWR.** Yng nghyfarfod mis Tachwedd cawsom gwmni difyr Vincent Hughes o Langystennin ar y testun 'Y Stori tu ôl i'r tacla'. Diolchwyd iddo gan Ann Lewis ac enillydd y raffi oedd Mir Read. Gwesteion y te oedd Mair James, Gwyneth Price a Nancy Williams i gyd o Stad Bro Eglwys. Dymunwyd gwellhad buan i Philip Williams, Llanddwyn ac i Marc Bardsley, Stad Eryri. Diolchwyd i'r aelodau am bob cefnogaeth i'r eisteddfod leol. Mae ymarferion côr y gangen wedi dechrau dan arweiniad Deilwen Hughes ar gyfer y gwasanaeth Nadolig sydd i'w gynnal nos Sul, 21 Rhagfyr yng Nghapel Cysegr am 6 o'r gloch

**FFERMWYR IEUAINC YN CANADA.** Anodd iawn oedd credu i mi gael fy newis yn un o'r ddau i gynrychioli Ffermwyr Ieuainc Cymru a Lloegr i fynd i Canada ar daith gyfnewid. Ond dyna ddigwyddodd a mis Mehefin eleni mi roeddwn i ar awyren ac ar fy ffordd i Toronto, a hynny heb wybod beth i'w ddisgwyl.

Roeddwn i'n trafaelio mewn grŵp yn cynnwys dau aelod o Ogledd Iwerddon, dau o'r Alban, un o Awstralia, un o Seland Newydd, un o Loegr ac, wrth gwrs, fi o Gymru. Am y tri mis canlynol roeddem yn cael cyfle i deithio yn eang drwy dalaith Ontario.

Roeddem yn aros efo aelodau Ffermwyr Ieuainc Ontario (tua 2,000 o aelodau yn Ontario) a'i teuluoedd am gyfnodau o thua wythnos ar y tro. Mae Ontario wedi'i rhannu yn saith rhanbarth ac fe roeddem i gyd yn aros yn yr un rhanbarth ar y tro, ond roedd yn bosib mynd am wythnosau cyn gweld unrhyw un arall o'r grŵp.



Bethan Jones ger y Niagara Falls.

gydag aelodau'r Ysgolion Sul, Côr Cadnant a Pharti Llefaru Lleisiau Cadnant. Mrs Glenys Griffiths fydd yn arwain y carolau gyda Beti Owen yn cyfeilio. £1 fydd tâl mynediad a'r tocynnau i'w cael gan aelodau'r gangen neu dalu wrth y drws. Bydd yr elw tuag at Dŷ Enfys, Ysbyty Gwynedd.

Cynhelir cinio Nadolig y gangen yng ngwesty Eryl Môr, Bangor, nos Fercher, 10 Rhagfyr. Bydd y bws yn cychwyn am 7.30 p.m.

**CYDYMDEIMLO.** Ddydd Llun, 20 Hydref, yn 93 oed bu farw Mrs C. Roberts, Cefn Cynrig. Estynnir pob cydymdeimlad i Elwyn ac Iris a'r teulu oll yn eu profedigaeth. **LLONGYFARCHIADAU** i Dafydd a Mona Williams, Bro Rhos ar ddod yn hen daid a hen nain. Dymunir hefyd wellhad buan i Dafydd.

**DIOLCH.** Dymuna Llinos Angharad, Perthi ddiolch o galon am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn un ar hugain oed. Diolch yn fawr.

**R. M. (DIC) PARRY**  
PEINTIWR AC ADDURNWR  
PRISIAU RHESYMOL  
**TAWELFA, PENISARWAUN**  
Ffôn: (01286) 870846

## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

**O'R YSBYTY.** Dymunwn wellhad buan i Mrs Dilys Jones, Cytir sydd wedi derbyn triniaeth i'w llygaid yn Ysbyty Gwynedd ac wedi dychwelyd gartref erbyn hyn.

**RHODDION.** Dan nawdd Cymdeithas y Chwiorydd Eglwys M.C. Brynrefail gyda Mrs J. A. Roberts yn trefnu, cafwyd ymateb rhagorol eleni eto i'r ymgyrch 'Operation Christmas Child' i gyflwyno blychau anrhegion i blant mewn gwledydd cythryblus y Nadolig hwn.


Yn ystod y mis hefyd cyflwynwyd y swm o £152.45, sef cyfraniad yr Eglwys tuag at apel 'Law yn Llaw'

ddarluniadol liwgar ffurfiant Dyffryn Peris gan ei olrhain i'r cyfnod cyn Oes yr Iâ i'w ffurf bresennol. Dyfynnir englyn Gwilym Cowlyd:

*Y llynau gwyrddion llonydd — a gysgant  
Mewn gwasgod o fynydd,  
A thynn heulwen ysblennydd  
Ar len y dŵr lun y dydd.*

Eglurir hefyd ddyfodiad y torgoch a'u bodolaeth hyd heddiw yn nyfroedd oer y ddau lyn, Peris a Phadarn.

Mae ymddangosiad y bwrdd arddangos yn gyfraniad i'w werthfawrogi yn lleol ac i ymwelwyr sy'n cyrchu'n gyson i Hen Bont Penllyn. Diolch i'r Cyngor Cefn Gwlad am y gwaith.



Yr hysbysfwrdd newydd ar bont Penllyn.

— ymgyrch 1997 Eglwys Bresbyteraidd Cymru gyda Chymorth Cristnogol tuag at anghenion Deheudir Affrica.

Hefyd, casglwyd y swm o £59.50 yn lleol tuag at Gymdeithas y Beiblau.

**EGLWYS M.C. BRYNREFAIL.** Trefn yr oedfaon am fis Rhagfyr:

- 7: Mr Richard Ll. Jones, Bethel (5.30)
- 14: GWASANAETH NADOLIG dan nawdd yr aelodau a phlant yr Ysgol Sul (2.00)
- 21: Parchg Trefor Jones, Caernarfon (5.30)
- 28: Dr Gwilym A. Jones, Penrhosgarnedd (10.00)

**HYSBYSFWRDD.** Ar Hydref 28ain gosodwyd bwrdd arddangos trawiadol ar gwr hen bont Penllyn. Arno eglurir yn ddwyieithog ac yn

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

**YSWIRIO EICH TŶ** (i arbed colled i chi);

**YSWIRIO EICH CAR** (i arbed colled i chi); neu

**YSWIRIO EICH BYWYD** (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)  
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cych)  
John Eifion (Penisarwaun)

**CDH**

Ymgynghorwyr Ariannol  
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

**ANTUR**



**NEWYDD AGOR YN**

**ANTUR WAUNFAWR**

**CANOLFAN ARDDIO**

WAUNFAWR Agored 9.00 - 4.00 Llun - Gwener

**AR GYFER Y NADOLIG**

ADDURNIADAU NADOLIG

★ ★ ★

COED NADOLIG

★ ★ ★

TWBLAU AMRYWIOL LLAWN

GRUG, IDDEW A SAFFRWM

★ ★ ★

AMRYWIAETH O BLANHIGION

★ ★ ★

TORCHAU NADOLIG

**GROTO SIÔN CORN**

18 a 19 Rhagfyr 2.00 - 6.00 p.m.  
20 Rhagfyr 10.00 a.m. - 4.00 p.m.

*Dowch i gael gair yng nghlust  
Siôn Corn a chael anrheg,  
wedyn mynd i'r caff i gael  
pethau-da tra fydd paned a  
mins pei ar gael i mam a dad a  
digonedd o anrhegion, cardiau  
ac addurniadau arbennig ar gael  
yn y siop.*

*Ymweliad â Siôn Corn fydd £2  
y plentyn.*



# CHWILOTA

## TEULU O DAFARNWYR LLEOL



Rai misoedd yn ôl bûm yn trafod hanes rhai o dafarnndai'r fro — yn enwedig y rheini sydd wedi diflannu erbyn heddiw, a'u casgenni'n sych grip! Un o'r tafarnndai hynny oedd y 'Coach and Horses' ym mhentref Rhiwlas. Cefais alwad ffôn a chroeso cynnes yn ddiweddarach ar aelwyd Miss Nancy Owen, 4 Rhydfadog, Deiniolen. Ei nain a'i thaid hi, Mary Jane a Williams Closs Parry, oedd yn cadw'r 'Coach and Horses' ar ddechrau'r ganrif. Yr enw a arferid ar lafar am y dafarn oedd 'Y Goets'. Chwarelwr oedd William Closs Parry a'r teulu'n byw ym mhentref Ebenezer gerllaw'r hen Co-op. Mae'n debyg i William Closs ddioddef o'r diciau, neu'r TB, a'i wneud yn analluog i weithio'n rheolaidd yn y chwarel. Fe'i perswadiwyd i roi cynnig ar gadw tafarn y 'Coach and Horses' yn Rhiwlas.

Yn ôl traddodiad teuluol, gwraig o'r enw Mary Morris oedd perchennog y 'Coach and Horses'. Roedd hi'n ferch i Lewis Owens, crydd o bentref Rhiwlas a phriododd yn 1875 efo John Evan Morris, chwarelwr o Gallt y Foel. Dywedir mai hi oedd perchennog y 'Bull' yn Neiniolen hefyd. Roedd Mary Morris yn fam-yng-nghyfraith i William Closs. Does dim sicrwydd pryd yr aeth William Closs yn dafarnwr i'r Rhiwlas, ond bu yno hyd ei farwolaeth yn 1907. Roedd yn ddisgyblwr llym yn y dafarn ac, yn ôl yr hanes, ni chaf neb regi o'i mewn — tipyn o gamp i ambell un oedd wedi codi'r bys bach yn ormod! Ar ei farwolaeth cafodd ei weddw dystlythyr gan weinidog Rhiwlas yn ei chymeradwyo fel tenant newydd y dafarn. Arhosodd hithau yno am flwyddyn wedi marw ei gŵr cyn symud i'r 'Bull' yn Neiniolen at ei rhieni. Erbyn hyn roedd Mary Jane Parry wedi ailbriodi efo Richard Roberts o'r Tŷ Mawr, Llanddeiniolen.

Chwaer i Mary Jane Parry/Roberts oedd Grace Morris. Priododd hi efo Griffith John Jones a phan adawodd Mary y Rhiwlas, Grace a Griffith J. Jones ddaeth i gadw'r 'Coach and Horses'. Arhosodd y ddau yno hyd 1914 pan gaewyd y dafarn ac yna symud i Ddeiniolen i gadw'r 'Wellington'. Ymddeolodd y ddau'n ddiweddarach i bentref Tre-garth.

Dyna felly dair tafarn yn cael eu cadw gan un teulu — Mary Morris yn y 'Bull', merch iddi yn cadw'r 'Coach and Horses' yn Rhiwlas cyn symud i'r 'Bull', a merch arall yn ei dilyn i dafarn y Rhiwlas cyn symud i'r 'Wellington'.

Mae cofnodion ynglŷn â chau tafarn y 'Coach and Horses' yn Rhiwlas ar gael. Fe'u cefais, er mawr syndod i mi, ym mhapurau Chwarel Dorothea, Dyffryn Nantlle. Tybed oedd

yna gysylltiad rhwng y tafarnndai a pherchnogion y chwareli? Yntau ai'r un twrnai oedd yn digwydd bod yn gyfrifol am waith cyfreithiol y ddau barti?

Roedd angen prisio cynnwys 'Y Goets' cyn ei chau a thalu iawndal i'r tafarnwr. Roedd gwerth £11 14s 6d o goed yn y dafarn, sef yr arwydd oedd yn hongian y tu allan; pedair silff o wahanol hyd a lled oddi mewn; a bar pren gyda paneli coed iddo o tua 14 troedfedd o hyd. Roedd ugain galwyn o win a gwirodydd wedi eu gwerthu yn y dafarn yn ystod 1913-14, a 121 o boteli o ddiod mineral. Dau gwmni oedd yn danfon y ddiod mineral i'r dafarn, sef cwmni Thomas ac Edwards a chwmni R. M. Jones, Llaneris. (Byddai'n ddiddorol cael mwy o hanes y cwmni diod hwnnw o Lanberis. Oes rhywun â unrhyw wybodaeth?) Yn ystod yr un cyfnod, gwerthwyd 67 casgen o gwrw Greenall Whitley a 4 casgen o gwrw Allsopp. Roedd y dafarn hefyd yn gwerthu poteli cwrw a stowt. Yn ystod 1913-14 gwerthwyd 178 potel beint gan gwmni y Cambrian Bottling. Poteli hanner peint oedd y lleill i gyd: 38 o rai Cambrian Bottling; 42 o rai Greenall Whitley; a 30 o rai Thomas ac Edwards.

Mae'n amlwg mai'r bragwyr oedd perchnogion y dafarn erbyn hyn oherwydd cyfeirir at Griffith Jones fel tenant. Er mwyn gweithio allan main yr iawndal oedd yn ddyledus iddo roedd angen cymryd i ystyriaeth holl elw'r dafarn dros y tair blynedd flaenorol a chanfod y cyfartaledd am flwyddyn. Hawliai Griffith Jones yr elw canlynol: £42 am gwrw; £9 am boteli cwrw; £3 am win a gwirodydd; a £3 am ddiodydd mineral. Roedd y perchnogion yn hawlio gwerth £801 o iawndal, a Griffith Jones yn hawlio £399, gan gynnwys bywoliaeth a thenantiaeth.

Disgrifir y dafarn fel tŷ cerrig gyda bar 14 troedfedd. Roedd ffenestri mawr i'r bar, gyda chwech o chwareli gwydr, y rhai uchaf mewn lliw. Roedd parlwr bychan yn gysylltiedig â'r bar, a pharlwr preifat i'r teulu. Yn y cefn roedd cegin (gyda phopt y bobi bara) a phantri. Tair llofft oedd iddo a dwy seler (gyda chyflenwad da o ddŵr yn un ohonynt). Y tu allan roedd iard ac o'i chwmpas roedd stabl, toiled, sied a chwt glo.

### HERWHELA YN YR EIRA?

Mewn cofnodionyn perthyn i Stâd y Faenol deuthum ar draws cyfeiriad arall at dafarn y 'Coach and Horses' a hynny yn y flwyddyn 1895. Gŵr o'r enw Richard Owen oedd yn byw yno bryd hynny. Tybed a oedd yn ewythr neu'n frawd i Mary Morris (Owen cyn priodi)? Cyhuddwyd Richard Owen o hela ar dir y Faenol heb ganiatâd, ond nid oes gwybodaeth ynglŷn â'r hyn a ddigwyddodd iddo. Cawn yn yr hanes hwn yr hen stori am y cipar dieithr yn methu siarad Cymraeg. Enw'r cipar oedd William Heyward ac yn ei dystiolaeth mae'n honni iddo ddilyn Richard Owen ym mis Chwefror 1895. Roedd eira trwchus ar lawr a gwelodd Richard Owen yn cuddio gwn dan yr eira mewn ffos. Pan gafodd Richard Owen ei ddal, gwadodd fod gwn ganddo, ond pan ddangoswyd y guddfan iddo, gafaelodd yn y gwn a dweud ei fod wedi cael caniatâd i saethu ar y tir gan y tenant. Yn anffodus

nid yw'r tenant yn cael ei enwi. Mae'n ymddangos i'r cipar ddanfôn Richard Owen yn ôl i gartref y tenant i'w holi ynglŷn â'r caniatâd. Siaradodd Richard Owen a'r tenant yn Gymraeg. Dywed y cipar yn ei dystiolaeth nad oedd yn deall y sgwrs rhyngddynt ond i'r tenant droi ato a dweud i Richard Owen gael caniatâd ganddo i saethu ar y tir!

Mewn dogfen arall yn yr un achos, dywedir fod yr hawliau saethu wedi eu trosglwyddo i Assheton Smith gan ŵr o'r enw Mr Roberts, Llwyn Brain(!) — Llwyn Brian, mae'n debyg — Llanrug. Rhoddwyd hawliau saethu ar dir Tyddyn Mawr, Llanrug i Mr Roberts a throsglwyddodd yntau hawliau saethu i Smith ar ddwy fferm o'i eiddo yn Rhiwlas. Nid yw'r ffermydd yn cael eu henwi. Dywedir hefyd fod gan Mr Roberts fab yn feddyg yng ngogledd Lloegr, ond na ellid cael dim gwybodaeth amdano.

### Y SAMPLER: O LANRUG I FIWMARES

Cysylltodd Mrs Sarah Kelly â mi o Fangor yn dweud fod sampler yn hongian ar wal gwesty'r Bulkeley Arms, Biwmares wedi ei wneio gan eneth o Lanrug. Enw'r eneth oedd Mary Jane Jones. Ar y sampler mae'r dyddiad 'MAwrth 1879', oedran Mary, sef 13, ac enw ei chartref: Penrallt, Llanrug. Doedd dim gwybodaeth pellach ganddi. Euthum ati i chwilota. Mae gennyf rai copïau o daflenni blynyddol y Capel Mawr, Llanrug. Mae'r daflen gynharaf yn fy meddiant yn dyddio o 1887. Roedd teulu Penrallt yn aelodau. Enwau'r rhieni oedd John Griffith a Dorothy Jones. Enwir Mary Jane Jones yn aelod hefyd. Erbyn 1889 mae enw Mary Jane wedi diflannu oddi ar y rhestr. Beth tybed ddigwyddodd iddi? A oedd hi erbyn hynny wedi priodi a symud i ardal Biwmares i fyw? Mae dyddiad y sampler yn awgrymu fod Mary Jane wedi ei geni tua 1866, ond nid yw'r flwyddyn honno'n cael ei chofnodi yng Nghofrestr Bedyddiadau'r Capel Mawr. Yn 1881 ceir cofnod o fedydd Edward, mab John Griffith Jones a Dorothy o Benrallt. Yn nhaflen flynyddol 1897 mae'r teulu'n parhau ym Mhenrallt — gyda dau o feibion, Griffith ac Edward. Erbyn 1901 mae'r rhieni wedi diflannu (wedi marw tybed?), ac Edwardd y mab hefyd. Erbyn hyn mae Griffith wedi priodi â Maria, a chanddynt un ferch a fedyddiwyd yn y flwyddyn honno, sef Dora Margaretta. Roedd Mary Jane a luniodd y sampler yn fodryb felly i Dora.

Oes rhywun o'r darllenwyr yn gwybod mwy am y teulu? Oes rhai o'u disgynyddion yn byw yn yr ardal heddiw? Cysylltwch â mi os gallwch egluro sut yr aeth

### Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr  
gan y bobl **BROFFESIYNOL**  
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**  
Y Gwasanaeth Technegol Gorau  
i'ch **CAR**. Cystal â  
Gwasanaeth Prif Ddeliwr  
Felly, pa gar bynnag ydych  
**CHWI** yn ei yrru,  
o Audi i Zastava



Car neu Fan  
Petrol neu Diesel  
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth  
ni yn arbed £££ ichwi  
ac yn ymestyn oes eich car

**AVW** YSTAD CIBYN  
CAERNARFON (01286) 673559





sampler o Lanrug i westy ym Miwmares.

## PWY BIAU GALLT CHWAREL GLYN?

Tybed faint ohonoch sy'n teithio o Nant Peris a Llanberis i gyfeiriad Llanrug sydd wedi sylwi ar un o ddwy garreg wedi eu gosod ar ochr y ffordd ar waelod ac ar ben Gallt Chwarel y Glyn? Mae un garreg wedi'i lleoli yn y wal ger mynedfa Glanllyn, a'r llall ar y tro peryglus ar ben yr allt, wedi'i chuddio bellach â drysni o fieri a drain. Mae'r arysgrif ar y ddwy garreg yn unon yr un fath ar wahân i ddwy lythyren: 'This part of the road from this stone to another one SE the distance of 542 yards is a private property of Lord Newborough'. Ar y garreg arall, mae 'NW' wedi eu gosod i mewn yn hytrach na'r 'SE'. Mae'n amlwg i'r cerrig gael eu gosod yn eu lle pan adeiladwyd y ffordd — ond pryd? A pha bryd, os o gwbl, y trosglwyddwyd y darn ffordd i ffeiddiant y Cyngor Sir?

Ffordd y Clegir oedd yr unig gysylltiad rhwng Llanrug a Llanberis ers talwm, ond adeiladwyd ffordd newydd tua 1832. Dyna pryd yr ymddengys tafarnau newydd ar hyd y lôn newydd — rhai fel Halfway House, Llanrug a'r Goat (heb fod ymhell o westy Gwêl y Llyn heddiw). Ond roedd Glynrhonwy yn eiddo i Stâd Glynllifon, a'r chwarel yn dal yn ei hanterth. Toedd fferm Glynrhonwy eisoes wedi diflannu a thomenni rwbel llechi yn gorchuddio'r hen gaeau. Mae'n eithaf posib fod llwybr y ffordd newydd wedi cael ei newid yn yr ardal hon yn ôl gofynion cloddio y chwarel. Felly, does dim sicrwydd pendant o ddyddiad Gallt Chwarel y Glyn. Byddai'n ddiddorol cael gwybod pryd y gosodwyd y cerrig yn eu lle.

### Y 'KELDRILL'

Mae'r rhyfeddod peiranyddol hwn yn cael ei ddangos yn Amgueddfa Chwarel Lechi Gogledd Cymru yn Llanberis. Fe'i dyfeisiwyd gan ŵr o'r enw

Moses Kellow. Tynnwyd fy sylw at yr hanes gan Mrs J. C. Williams, Llanrug ac anfonodd hanes y peiriant wedi ei ysgrifennu gan ei brawd. Teulu o Gernyw oedd y Kellows a ddaeth i ardal Croesor i fyw. Yno, roedd y tad yn oruchwyliwr y chwarel ac yn awdurodd ar ddaear. Dilynodd y mab, Moses, ef yn oruchwyliwr Chwarel Croesor a gwnaeth amryw o welliannau yno. Sicrhodd gyflenwad trydan i'r chwarel gan ddefnyddio'r pŵr newydd hwn i ysgafnhau gwaith y gweithwyr. Dyfeisiodd beiriant trydan oedd yn ddigon cryf i dynnu chwech neu saith o wagenni llwythog — a'r cyfan yn cael ei reoli gan un dyn. Gorchwyl arall a oedd yn gwastraffu amser y chwarel oedd tyllu wyneb y graig i ddyfnder o tua saith troedfedd. Dyma sut y disgrifir y broses: 'Yr ebill hir a'r jumper fyddai'r erfyn cyntefig i'r gorchwyl. Cymerai dros awr i dyllu rhyw saith troedfedd o ddyfn... Dyfeisiodd beiriant yn gweithio gyda thrydan a phwysau dŵr yn suddo'r ebill hir i'r graig, ac yn glanhau'r sbwriel yr un pryd. Dyma'r "Keldrill" a ddaeth yn syndod ym marn peirianwyr y byd. Gorchwyl yn cael ei gyflawni bellach mewn dau i dri munud.' Tybed a fu rhai o chwarelwyr y fro hon yn defnyddio'r 'Keldrill' o gwbl? Bu Moses Kellow farw yn 1943 yn 82 mlwydd oed.

Yr hyn sy'n ddiddorol ynglŷn â hanes Moses Kellow yw ei fod yn nhraddodiad hir y 'bobol ddŵad' a ymfudodd i ardaloedd y chwareli. Mae cyfenwau amryw ohonynt yn parhau yn yr ardal hyd heddiw. Dyna'r Clossiaid a'u cysylltiadau cynnar â chloddio copr; y Plemings yn y chwareli llechi, a'r Cookes a'r Baums yn chwareli ithfaen yr Eifl. Tybed faint mwy o enwau 'dieithr' ddaeth i mewn i'r broydd hyn yn sgîl y chwyldro diwydiannol, a faint o'u disgynyddion sy'n parhau yma, yn Gymry Cymraeg erbyn heddiw?



## PONTYDD RHEILFFORDD DROS AFON SAINT

Aeth neb i'r drafferth i anfon rhestr o bontydd y rheilffordd dros Afon Saint. Tybed ydi oes y trên stêm mor bell yn ôl bellach fel mai ychydig o'r darllenwyr sy'n cofio'r trên yn teithio o Gaernarfon i Lanberis? 'Sgersli biliif!' chwedl Ifas y Tryc. Dyma'r rhestr yn llawn (gobeithio!): Pont Pontrhythallt (un o bedair pont — dwy dros yr afon a dwy dros reilffyrdd); Pont Glanrafon/Llwyn y Brain; dwy bont Cae'r Glyddyn i dorri ar draws y ddolen anferth yn yr afon yno; pont arall islaw Bodrual; tair pont ar dir Glan

Gwna cyn cyrraedd ffatri Peblig; a'r bont ger Gwaith Brics Caernarfon oedd yr olaf — cyfanswm o naw. Faint o'r pontydd hyn sy'n dal i sefyll?

## MELINAU DŴR AFON SAINT

Gadawn y rhain tan y rhifyn nesaf — a ddaw allan yn fuan cyn y Nadolig — felly, peidiwch ag oedi gormod rhag anfon gwybodaeth neu wneud ymholiad. os na fydd ymateb buan bydd yn rhaid disgwyl tan ddiwedd Ionawr 1998 i gynnwys eich sylwadau neu eich ymholiadau. Cofiwch gysylltu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (01286) 673515.

## CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.  
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

GŴYL CERDD DANT. Llongyfarchiadau i Donna Mair Roberts, 10 Erw Wen ar ennill dwy wobwr gyntaf yng Ngŵyl Cerdd Dant Aberystwyth. Daeth Donna yn fuddugol ar yr unawd cerdd dant a'r alaw werin i blant oed ysgolion cynradd.

APÊL DEHEUDIR AFFRICA. Er mwyn ceisio cyrraedd y nod o £3 yr aelod ar gyfartaledd mae Capel Caeathro yn gofyn i bob aelod a chefnogwyr gyfrannu at apêl 'Law yn Llaw' Eglwys Bresbyteriaidd Cymru 1997. Dylid cyfeirio rhoddion o unrhyw swm trwy drysorydd y Capel, Mr O. Williams, 19 Tai Glangwna.

NOSON CALAN GAEAF. Aeth tri o bobl ifanc o amgylch y pentref mewn gwisg ffansi ar noson calan gaeaf. Roedd un golwg arnynt yn ddigon i berswadio'r pentrefwyr i'w gwobrwyo am eu hymdrechion. Fodd bynnag wrth iddynt ymweld â thŷ gyferbyn â'r fynwent fe gawsant fwy o sioc eu hunain na thrigolion aelwydydd y pentref! Chwarae teg iddynt.

HANES CAERNARFON. Un o drigolion Caeathro, Reg Chambers Jones, Hafod Wen oedd un o'r siaradwyr yn y rhaglen gan HTV ar hanes tref Caernarfon. Ei bwnc arbenigol yw hanes yr Ail Ryfel Byd ac yn arbennig yn y rhaglen hon am y storffeydd bomiau yng Nglynrhonwy, Llanberis.

CYNNYDD YN Y CYLCHREDIAD. Braf yw tysio fod mwy o bobl Caeathro yn prynu'r Eco. Mae'r

dosbarthwr Rhiannon Roberts yn ddiolchgar iawn o gael cymorth Marian Hughes, Tŷ Mawr o hyn ymlaen. Llawer o ddiolch i ti, Marian. Diolch hefyd i Mr Glyn Evans, Garej Gwalia am werthu swp bob mis.

RHODDION I'R ECO. Diolch i'r canlynol am eu rhoddion — £7: Mr T. Elwyn Griffith, 15 Erw Wen; £2: Miss A. Roberts, 4 Caeathro Bach. GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y canlynol i wasanaethu hyd ddiwedd y flwyddyn:

Tachwedd

30: Parchg Ronald Williams (2) Rhagfyr

7: Parchg W. R. Williams (2)

14: Parchg Huw Gwynfa Roberts (2)

21: Gwasanaeth Nadolig gyda'r Gweinidog (5.30)

28: Dim Oedfa.

CYMDEITHAS CAE CHWARAE CAEATHRO. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y Gymdeithas yn y Pafiliwn ar y cae chwarae nos Lun, 17 Tachwedd. Roedd saith yn bresennol a chafwyd ymddiheuriad gan ddau o'r ymddiriedolwr. Yn ei sylwadau am y flwyddyn roedd y cadeirydd o'r farn fod defnydd o'r cae pêl-droed wedi gwella'r glaswellt; roedd y daith i Southport yn llwyddiant a bu gwariant mawr yn aildoi'r Pafiliwn. Yn y flwyddyn nesaf bydd yn rhaid rhoi ychwaneg o sylw at reoli'r cae chwarae o fis i fis. Ymddangosodd y fantolen ariannol ar hysbysfwrdd y pentref am

(parhad ar dudalen 19)



Harddwch eich cartref gyda

# FFENESTRI

## CELTIC WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS  
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynnyddoedd o brofiad  
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



Uned 5, Griffiths Crossing  
Llanfair-is-Gaer, Caernarfon



Sefydlwyd  
1980



J.M.  
JONES  
A'I FEIBION

GWAITH  
CERRIG  
BEDDAU

## Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith  
llaw traddodiadol  
Cerrig o bob  
math ar gael

Ffôn: (01286)  
672898 (dydd)  
676285 (nos)



**GWASANAETH TRYDANOL  
ERYRI** ★ AIL WEIRIO ★ CAWODYDD  
★ GOLEUADAU DIOGELWCH  
★ LARWM LLADRON  
★ CYNNAL A CHADW  
**ELECTRICAL  
FRON**  
**DEINIOLEN** (01286) **870858** **SYMUDOL**  
0467 774 326

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb


**SWYDDFA'R POST A SIOP  
CLWT Y BONT**

**Ffôn: 870325**

Nadolig Llawen a Blwyddyn  
Newydd Dda oddi wrth  
**JAVED A SHAHEEN HAQ**



**OSMOND W.  
SHAW DEINIOLEN**



Nadolig Llawen a Blwyddyn  
Newydd Dda i chwi oll

**GWASANAETHAU  
TELEDU**

**Ffôn; Llanberis 870545**

Nadolig Llawen  
a Blwyddyn Newydd Dda  
oddi wrth

**Chris ac Angela  
a'r staff  
WELLINGTON  
INN**

**Deiniolen**

**Ffôn (01286) 870227**



**CWRW BLASUS  
CHWERW AR EI ORAU**



Dymuna **DAFYDD  
GWENLLI A STAFF  
Y TARW  
BULL INN  
DEINIOLEN**

Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd  
Dda i gwsmeriaid a  
chyfeillion oll

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi oll  
oddi wrth Tim, Jackie a phawb yng

**NGORSAF BETROL**



**Esso**

**BERAN**



**DEINIOLEN. Ffôn: Llanberis 871521**

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod  
Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo ● Cylchgronau  
Papurau Newydd ● Cardiau Penblwydd  
Wyau ● Nwyddau Groser ● Melysion  
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

**TICEDI LOTERI AR WERTH**




CYFARCHION Y TYMOR  
A'R DYMUNIADAU  
GORAU AM Y FLWYDDYN  
NEWYDD  
oddi wrth  
**GWYN OLIVER JONES**

**Bar  
Super  
Arfon**

**DEINIOLEN**

**Ffôn: Llanberis 870048**



**THE OLD  
LODGE**



**ACTIVITY CENTRE  
DEINIOLEN  
Ffôn: 871073**

DIOLCH I HOLL  
DRIGOLION DEINIOLEN AM  
EICH CYMORTH A'CH  
CEFNOGAETH YN YSTOD Y  
FLWYDDYN A AETH  
HEIBIO.

Nadolig Llawen iawn a  
Blwyddyn Newydd  
ffyniannus yn 1998 i bawb  
oddi wrth Stuart

**AR AGOR**  
Llun-Gwener 8.30am-10pm  
Sdawrn 9am-10pm  
Sul 10am-9pm

**SIOP  
SPAR**

**Stryd Newydd  
DEINIOLEN  
Ffôn: 870171**



Diolch am bob cefnogaeth  
drwy gydol y flwyddyn  
Nadolig Llawen a Blwyddyn  
Newydd Dda oddi wrth  
Edgar a'r holl staff

Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd Dda  
oddi wrth

**IEUAN  
WILLIAMS**

**Glanffrwd, Deiniolen  
Llanberis 870484**

★ Bysus o 12 i 53 sedd  
★ Teithiau Lleol a  
Thramor  
★ Gwaith Contract  
★ Telerau arbennig i  
bensynwyr, myfyrwyr  
a phlant ysgol

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA  
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA**  
oddi wrth  
bawb yn

**ARFON  
GARAGE  
DEINIOLEN**

(Ffôn: Llanberis 870287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd Dda  
i bawb oddi wrth

**BILL, LIZ a FIONA  
SWYDDFA'R  
POST  
DEINIOLEN**

**Ffôn: Llanberis 870283  
GROSER TRWYDDEDIG**



**ASIAN LOTERI CENEDLAETHOL**



## DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhes Faenol Ffôn: 871174



Hywel ac Eirlys Williams a fu'n dathlu eu priodas aur yn ystod mis Hydref.

**PRIODAS AUR.** Llongyfarchiadau i Howel ac Eirlys Williams a ddathlodd hanner can mlynedd o fywyd priodasol ar y 11eg Hydref.

Priodwyd hwy yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon gan y Parchg D. R. Thomas yn 1947 a'r gwas priodas oedd y diweddar Dafydd Jones (brawd y briodferch) a'r ddwy forwyd oedd Bessie Williams (Parry gynt), ffrind y briodferch; a Gracie Williams, nith.

Bu dathlu'r briodas aur yng Ngwesty'r Prince of Wales, Caernarfon, lle y cynhaliwyd y brecwast priodasol hanner can mlynedd yn ôl. Daeth nifer fawr o ffrindiau a theulu ynghyd a rhai ohonynt wedi trafaelio o Llundain, Bishop Auckland a Phenbedw. Braf iawn oedd gweld y ddwy forwyd briodas yn bresennol yn y dathlu.

Yn bresennol hefyd roedd eu merch a'u pedwar mab ynghyd â'u teuluoedd a gynhwysai tri o wyrion a thri gor-wyrion.

Dymuna Hywel ac Eirlys ddiolch i'w holl ffrindiau a'r teulu oll am y llw cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar yr achlysur arbennig hwn.

**Y GYMDEITHAS LENYDDOL.** Yng nghyfarfod mis Hydref o'r Gymdeithas, a gynhaliwyd yn y Caban nos Lun, Hydref 13, cafwyd noson 'Pawb â'i Stori'. Adroddodd nifer o'r aelodau stori wedi ei seilio ar nwyddau a ddangoswyd neu ar ddarn o lenyddiaeth. Roedd yn noson hwyliog a diddorol dros ben. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y Caban am 7 o'r gloch nos Lun, Tachwedd 24. Bydd Mr Ifan Wyn Evans, Deganwy, yn rhoi sgwrs ar 'Cofio Gwenlyn'. Estynnir croeso cynnes i bawb.

**Y CYNGOR EGLWYSIG.** Cynhaliwyd oedfa yn festri Cefnywaun nos Lun, Hydref 27. Y Parchg John Owen, Bethesda oedd yn annerch a chafwyd sgwrs ddiddorol ac addysgiadol ganddo yn adrodd hanes ei ymweliad â Chanolfan Cyngor Eglwysig'r Byd yn y Swistir. Soniodd am y bobl a gyfarfu yno o sawl gwlad a'r hyn a ddysgodd am gyflwr y gwledydd a'r eglwys y perthynent iddynt.

### DIOLCHIADAU

Dymuna Robin ac Alwen, 12 Rhydfadog ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau,

blodau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu priodas aur ar 1 Tachwedd.

Dymuna Ellis Wyn Williams, 6 Ffordd Deiniol ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a'i gymdogion am eu caredigrwydd drwy ymweliadau, anrhegion, arian a chardiau; hefyd am y galwadau ffôn di-ri tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod gartref. Diolch i feddygon a staff Ward Dulas, Ysbyty Gwynedd am y gofal arbennig ar ôl cael llawdriniaeth frys; diolch hefyd i Dr Gwyn Williams a'r dynion ambiwlans am y gofal yn y cartref. Diolch o galon i bawb.

Dymuna teulu'r diweddar John Henry Williams, Ael-y-bryn, Rhiwen gydnabod yn ddiolchgar y cydymdeimlad ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli brawd ac ewythr annwyl. Diolch hefyd am gyfraniadau ariannol a dderbyniwyd sydd i'w cyflwyno i Feddygfa Deiniolen a Chronfa Clefyd Siwgr. Diolch i'r meddygon a'r nyrsus am eu gofal tyner. Diolch hefyd i'r Canon Glyndwr Williams ac i Mr M. Pritchard am eu gwasanaeth.

Dymuna Glyn a Nia Gruffudd, 2 Rhes Fictoria ddiolch o galon am yr

holl gardiau ac anrhegion a gawsant yn dilyn genedigaeth eu merch Catrin Llewelyn.

**MERCHED Y WAWR.** Nos Lun, Hydref 20, cawsom gwmni Ms Sioned Harris, Swyddog Amgylcheddol y Mudiad. Cynghorodd ni ar sut i gael gwared o wahanol fathau o sbwriel a sut i ofalu am yr amgylchedd. Diolchwyd iddi gan Iona Richards. Gwnaed y te gan Alice Griffith, Megan Morris a M. J. Jones. Enillwyd y raffl gan E. W. Jones.

Nos Lun, Tachwedd 17, daeth Mrs Gwenllian Roberts a Mrs J. Doyle atom i sôn am 'decoupage' ac i arddangos eu gwaith. Cafwyd noson ddifyr iawn yn arbrofi â gwahanol enghreifftiau o'r grefft hon. Diolchwyd gan Eirlys Williams ac enillwyd y raffl gan E. Hughes. Gwnaed y banded gan Beryl Hughes, Beti Williams a Marian Williams.


Nos Lun, Rhagfyr 1, bydd aelodau'r gangen yn ymweld â'r Amgueddfa yn Llanberis. Ceir cyfle i wrando ar Gôr Meibion Dyffryn Peris, i weld ffilm, ac i brynu o'r siop. Bydd bws yn cychwyn o Ddinorwig am 6.15 p.m.

Nos Sul, Rhagfyr 7, gobeithir cael mynd i'r Gymanfa yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon am 8 o'r gloch. Ar Dachwedd 27 bydd yr aelodau yn mynd i Fethesda i wrando ar y telynor Robin Huw Bowen.

**CLWB ELIDIR.** Cawsom brawn difyr iawn ddechrau'r mis pan ddaeth aelodau o Menter Fach-wen i sôn wrthym am eu gwaith. Roedd y ffilm o'r aelodau wrth eu gwaith a hefyd y 'Rhodfa Natur' a baratowyd ganddynt, ynghyd â'r siop caban pren. Mae tyrfaoedd o bobl, plant o'r ysgolion lleol ac ymwelwyr wedi mwylhau oriau difyr yno yn ystod yr haf.

Bydd y Clwb yn mynd i fwynhau eu cinio Nadolig yng Nghonwy ddydd Iau, 4 Rhagfyr, gan orffen y diwrnod yn Llandudno. Mae croeso i bawb fuasai'n dymuno dod am ginio ac i Landudno — cysyllter â Buddug neu Eirlys (01286) 871300.

**ENILLWYR CLWB 200 Y SEINDORF** am fis Hydref — £25: Barry Price, Yr Hafod, Deiniolen; £15: Len Williams, 26 Hafod Olau, Deiniolen; £10: Dylan Hughes, Tai Fictoria, Deiniolen.



**Druan ohoni.** Bu wrthi'n ddyfal yn paratoi ar gyfer y daith beicio nodedig. Tra'n ymarfer, syrthiodd oddi ar gefn y beic ac anafu ei breichiau. Gobeithio eich bod wedi gwella erbyn hyn, Gaynor.

## 'Un funud fach . . .' ANRHEGION

Os nad ydych wedi gorffen eich siopa Nadolig dyma bump rheol i'w cofio wrth brynu anrhegion eleni:

 **Prynwch anrheg sy'n GWEDDU.** Gofalwch beidio rhoi tûn cig i lysieuwr na sgarff glas i gefnogwr Lerpwl.

 **Prynwch anrheg sy'n GWEITHIO.** Does dim yn waeth na thegan sy'n torri cyn i'r twrci druan ddod o'r popty.

 **Prynwch anrheg sy'n PARA.** Beth am ddilledyn neu lyfr fydd yn rhoi pleser ymhell wedi i'r siocledi gael eu sgaffio.

 **Prynwch anrheg GWERTHFAWR.** Ond os am arbed arian cofiwch atgoffa pawb mai'r meddwl y tu cefn i'r anrheg sydd bwysicaf!

 **Gobeithio y caiff eich anrheg ei WERTHFAWROGI.** Os na wisgir y slipars, ac os teflir y tegan i ben draw'r twll dan grisiau, mynnwch wneud yn well y flwyddyn nesaf!

Mae Duw wedi mentro rhoi'r rhodd fwyaf un i ni. Mae wedi rhoi ei fab Iesu, ac mae'n disgwyl i ni werthfawrogi'r rhodd honno. Y Nadolig hwn gobeithio medrwn ni werthfawrogi'r Iesu trwy ddiolch i Dduw amdano, a'i garu a'i addoli a'i wasanaethu. Ni ddylai fod yn anodd gwneud hynny.

Onid yw'r rhodd yn GWEDDU i'r dim. Dyma ffrind i'r unig; bywyd i'r tlawd; maddeuant i'r euog; gobaith i'r truenus; a llawenydd i'r trist.

Onid yw'r rhodd yn GWEITHIO'n ardderchog? Mae pawb sy'n mentro dod at Iesu a chredu ynddo yn darganfod bod yr efengyl yn gweithio.

Onid yw'r rhodd yn PARA am byth? Ffrind am oes yw'r Iesu. Mae'r bywyd a'r llawenydd a fydd yn para am byth.

A dyma'r rhodd FWYAF GWERTHFAWR y gall neb ei chael. Duw yn ein caru cymaint nes rhoi ei Fab ei hun er mwyn i ni gael byw.

Nadolig llawen i bawb ohonoch.

JOHN PRITCHARD

## YN EISIAU

**Arweinyddes i  
Ysgol Feithrin  
Deiniolen**

**Ymholiadau i'r  
Ysgrifenyddes  
Mrs Christine Jones  
5 Tai Gerddi  
Deiniolen**

**Ffôn: 871965**





**CYFARCHION  
NADOLIG  
O GWM-Y-GLO**

Nadolig Llawn a  
Blwyddyn Newydd  
Dda oddi wrth



**ORIEL  
CWM  
Cwm-y-glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882  
Gwasanaeth Fframio  
Lluniau o bob math ar gael ar y safle  
Prisiau Rhesymol  
Arddangosfa o luniau gwreiddiol  
gan Artistiaid Lleol  
Richard S. Humphreys

**CWM Y GLO**

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

LLONGYFARCHIADAU i Marjorie a Ted Roberts, Bod Gwilym ar ddathlu eu priodas berl.

Llongyfarchwn hefyd Eluned, Alexandra House ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed.

DIOLCH AM GEFNOGAETH. Dymuna Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gymuned Cwm-y-glo ddiolch i bawb a gefnogodd y nosweithiau canlynol i'w gwneud yn rai mor llwyddiannus:

Noson Calan Gaeaf yn yr ysgol a'r plant wedi ymdrechu'n arbennig o dda i wisgo dillad ffansi. Mwynhaodd pawb y cawl a wnaed gan Mrs Orritt. Enwau enillwyr y cystadlaethau gwisg ffansi oedd — Meithrin a Derbyn: Ffion a Lowri; Bl. 1 a 2: Elin; Bl. 3-4: Rhian; Bl. 5 a 6: Brendan; Cystadleuaeth pwmpen orau: Ffion a Brendan. Enillwyr y raffl oedd Jamie Lewis, Delyth Roberts, Diane, Siân a Delyth Roberts.

Cynhaliwyd noson tân gwyllt yn Y Fricsan a diolch yn fawr iawn i Elaine a Howard am eu cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn. Mwynhaodd y plant — a'r rhieni — y noson yn fawr iawn ac enillydd gwneud y Guto Ffowc gorau oedd Gavin Foulkes. Enillwyd y raffl gan Shân, Debbie, Enid Price, Katie Pritchard, Mrs Roberts, Keith Bryn, Yvonne, Keith Pritchard a Siôn Idwal.

Ar ran y Gymdeithas hoffem ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a

thrw y hynny mae'r ysgol wedi cael llawer o offer newydd i'r plant eu mwynhau. Dymunwn i chwi oll Nadolig llawn a blwyddyn newydd dda am 1998 gan obeithio y cawn y fraint o gydweithio â'n gilydd eto yn y flwyddyn newydd.

DIOLCH. Dymuna Tec a Marjorie, Bod Gwilym ddatgan eu diolch i'w ffrindiau, cymdogion a'u teulu oll am yr holl anrhegion, blodau, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu priodas berl ar 21 Hydref.


YSGOL GYNRADD CWM-Y-GLO. Enillwyr Clwb yr ysgol am fis Hydref oedd Mrs Christine Jones a Mrs Iris Rowlands y ddwy o Gwm-y-glo. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch. Mae nifer o aelodau newydd wedi ymuno â'r clwb — diolch am eich ymateb. Cofiwch, po fwyaf yr aelodau, mwyaf y gwobrau!

Bu Cymdeithas Rhieni/Athrawon yr ysgol yn brysur eto yn ystod y mis diwethaf. Trefnwyd noson arbennig gan berchnogion Y Fricsan i ddathlu noson Guto Ffowc. Gwahoddwyd y pentrefwyr i weld arddangosfa arbennig o dân gwyllt yno. Paratowyd lluniaeth a threfnwyd raffl llwyddiannus gan y rhieni. Diolch i bawb gefnogodd y noson honno.

Prynwyd cyfrifiadur PC newydd i'r ysgol gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Diolch hefyd i'n nain a thaid Sion Arfon — Mr a Mrs Dafydd Roberts — am eu rhodd hwythau o

Nadolig Llawn oddi wrth Bryn a Kathleen

Am eich  
**ANGHENION  
ADEILADU**  
mawr a bach  
**MASNACHWYR**  
A "D.I.Y."  
am **BRISIAU  
CYSTADLEUOL**



**BRYN**  
(B & K Williams)

**Yr Hen Ysgol  
Glanmoelyn  
LLANRUG**  
Ffôn: 677482

**OAK** AM BETROL, DEISEL **OAK**  
OLEW AC AMRYFAL  
ANRHEGION MODURO

**GORSAF BETROL  
LONDON GARAGE  
CWM-Y-GLO**

Ffôn: Llanberis 872046

Nadolig Llawn a  
Blwyddyn Newydd  
Dda i bawb



Nadolig Llawn a  
Blwyddyn Newydd Dda

**MORRIS BROS.**  
BECWS GORS BACH, CWM Y GLO  
Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM  
MECWS PEN Y BRYN  
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268  
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 675526

Dymuna  
**HOWARD ac ELAINE  
MIDDLETON**  
a staff

**Y FRICSAN  
CWM-Y-GLO**

Ffôn: (01286) 870289



**NADOLIG LLAWEN A  
BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB**  
DEWCH AM GROESO CYNNES BOB AMSER

**CEIR  
CWM**

**CWM Y GLO, Ffôn: 871234**  
Ar agor: Llun — Sadwrn, 10.00 - 5.30  
Sul, 1.00 - 5.00  
Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb



deledu lliw i ni. Rydym yn gwerthfawrogi eu haelioni yn fawr iawn.

Cawsom gwmni Miss Claire Morris o Lanrug am wythnos o brofiad gwaith yn nosbarth y Babanod. Mae hi yn dilyn cwrs Prosiect Nyrso 2000. Diolch Claire am fod mor annwyl a gweithgar gyda'r plantos.

Cynhaliwyd noson o gystadlaethau gwisg ffansi a pharatoi meipen ar ddiwedd mis Hydref. Cafodd y beirniad, Mrs Mary Roberts o Lanrug, orchwyl hynod o anodd, ond gwnaeth ei gwaith yn hwyliog iawn. Diolch o galon iddi.

Llongyfarchiadau a diolch i'r plant gynrychiolodd yr ysgol yn y ddwy Gala Nofio a gynhaliwyd ym Mangor — Andrew Jones, Bl. 4, o dan 10 oed a Susie Radnor. Sarah Perrin a Katrina Cullen o dan 12 oed. Cawsom ddau gyfarfod o gangen yr Urdd yn ystod y mis. Un gyda Mrs Mair Hughes yn bowlio deg ac un gyda Mrs Rita Williams o gemau Gwersyll. Mae aelodau'r gangen hefyd yn brys yn gwerthu tocynnau'r raffl genedlaethol, yn casglu o ddrws i ddrws, ac yng nghyntedd Safeways, Caernarfon ddydd Sadwrn nesaf. Diolch eto i bawb sy'n cefnogi gweithgareddau'r Urdd.

Mae paratoadau'r Nadolig yn mynd rhagddynt. Trefnwyd nifer o weithgareddau fel a ganlyn: Noson agored i rieni, nos Lun, Rhagfyr 1af. Cyngerdd Nadolig, pnawn a nos lau, Rhagfyr 11. Bydd tocynnau ar werth yn yr ysgol gyda'r elw yn mynd i gronfa'r ysgol. Prynhawn o adloniant gyda Howard y Dewin ar Ragfyr 15. Ar yr un noson byddwn yn mynd o gwmpas y pentref i ganu carolau a gorffen yn yr ysgol i gael pwnsh a mins pei. Bydd plant Bl. 4, 5 a 6 yn ffurfio cynulleidfa ar gyfer Uned 5 yn Stiwdio Barcud. Bydd y rhaglen yn cael ei darlledu'n fyw bawn Mawrth, Rhagfyr 16. Nos lau, Rhagfyr 18, cynhelir parti Nadolig gyda lluniaeth a disgo i blant yr ysgol. Pwy â wyl na chawn ymweliad annisgwyl yn ystod y noson?

I gloi am eleni, carwn ddymunio Nadolig llawen a dedwyh i chwi fel pentrefwyr. Dymuniadau gorau hefyd ar gyfer 1998. Diolch i chwi am gefnogi holl weithgareddau'r ysgol gydol 1997. Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth bob amser.

## DRAENOG



Roedd yna sŵn gweiddi a gwylltio i'w glywed o'r car newydd a welwyd yn Nôl Elidir yn ddiweddar. Rhyw ffræ deuluol? Rhyw anghydweld mawr? Na, wedi cael car newydd roedd y ferch ac yn cael trafferth efo'r gers. Doedd mynd ymlaen ddim problem o gwbl, ond fedrai hi yn ei byw â dod o hyd i'r 'reverse'. Yno y buo hi am hydoedd yn tantro a bygwth y car druan.



## AR BEN ARALL Y LEIN . . .

Wrth edrych yn ôl dros y deunaw mlynedd o hanes ein dyfroedd mae'n rhaid dweud bod camau aruthrol wedi eu cymryd ynglŷn â phrynu hawliau pysgota yn y fro. O fod yn Glwb Pysgota oedd yn dibynnu bron yn gyfan gwbl ar ddal hawliau dan rent rydym yn awr yn y sefyllfa genfigennus o fod yn berchnogion ar rannau helaeth o bysgodfeydd a thir ein hardal.

Mae hyn yn golygu bod yr hawliau y cyfeiriwyd atynt yn perthyn i'r Gymdeithas, ond y gwir enillwyr yn hyn yw'r ardal yn gyffredinol. Rhaid peidio ag anghofio ein cefnogwyr 'chwaith, sef y tiffeddianwyr sydd wedi cydweithredu mor barod a synhwyrol i wneud y cyfan yn bosibl. Mae'n dyled iddynt yn fawr iawn, a bydd y rhai fydd yn ein dilyn yn elwa'n fawr o hyn.

O gofio bod y gwaith prynu mwyaf, gobeithio, yn dirwyn i ben fe gawn droi ein sylw bellach at ddatblygu a gwella ein heiddo ac yn arbennig y safon o bysgota. Mae'n wir dweud bod y 'sgota eog ar y Seiont wedi dirywio dros y chwe blynedd diwethaf. Ond mae'r Llyfni, diolch i'r drefn, wedi dal ei phen ac yn wir mae'r sefyllfa yn gwella yno: cyfartaledd y ddalfa eog am y deng mlynedd hyd at 1996 oedd 35 eog y tymor, ond yn 1997 daliwyd 62.

O droi ein sylw nôl at y Seiont, mae cryn drafod wedi bod gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ac o'r diwedd mae trefniadau ar dro i fagu miloedd o gywion eog gyda'r bwriad i'w meithrin mewn lleoliad arbennig i'r 'smolt stage'. Mae arbrofion wedi dangos bod magwraeth o'r math yma yn gallu sicrhau bod cyfran sylweddol ohonynt yn dychwelyd i'r afon fel eog llawn.

Cefais brofiad o'r math yma o gynllun pan fûm yn Alaska ym mis Awst, lle cafwyd cynllunio, cydweithio a gweithredu er mwyn dod â llewyrch i ardaloedd gwledig ac anghysbell. Yr unig beth sydd ei angen er mwyn efelychu hyn yma yw brwdfrydedd. Rydym ni fel Clwb, gyda chefnogaeth, gobeithio, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd a CYMAD yn benderfynol o wneud i hyn weithio.


\* \* \* \*

Gan droi yn awr at fater arall. Roedd yn ddiddorol deall trwy'r Eco fod Dafydd Whiteside Thomas yn awyddus i gael gwybod am nifer y melinnau ar y Seiont. Dyma'r wybodaeth sydd gen i, gan ddechrau yng Nghaernarfon.

1. Melin Seiont — islaw'r gwaith brics, lle gellir gweld yr hen system o reoli'r dŵr gerllaw'r bont i'r gwaith.
2. Foundry — Scholfields' yn awr; tynnu dŵr o Llyn Crwn.
3. Melin Peblig — cael dŵr o Llyn Criw; mae'r hen ffrydiad i'w weld uwchben Pont Peblig.
4. Melin Glan Gwna — ni wn ei henw priodol; cael dŵr o Llyn Distaw.
5. Melin Cae'r Glyddyn — yn cael ei hadnabod yn ddiweddarach fel Factory Bacon — nawr yn Feithrinfa Seiont, Pontrug.
6. Felin Wen — tynnu dŵr o Llyn William Owen, Pontrug.
7. Melin Lechi Pontrug — tynnu dŵr o waelod Stepiâu Nasareth.
8. Melin Glanrafon (gwenith, ac ati); tynnu dŵr o Lyn Harri Parri.



Dau dorgoch diwedd tymor o Lyn Padarn.



Pedwar eog arian o Sitka, Alaska, Awst 1997.

9. Melin Cawia (gwenith); tynnu dŵr o Lyn Tywod. Cael ei henw, medda nhw, o'r tywod a olchwyd iddo o Felin Lechi Cawia. Mae hanesion diddorol am y felin wenith a gobeithiaf eu hadrodd y tro nesaf.
10. Melin Cawia (llechi); tynnu dŵr o Lyn Doctor, Llanrug. Oes rhywun tybed yn gwybod ystyr y 'Doctor'?
11. Melin islaw Fferm Glascoed, Llanrug (llechi); tynnu dŵr o Lyn Garreg Fawr, Llanrug.

O ran diddordeb mae Melin Lechi Pontrug a Melin Wenith Cawia ym mherchnogaeth y Clwb erbyn hyn ac mae darllen yr hen weithredoedd yn hynod o ddiddorol.

Rhyfedd na chlywais yr un smic ynglŷn â hen blu pysgota'r ardal. Mae'n rhaid fod pawb wedi colli eu tafod!

HUGH P. HUGHES

## YR IESU

Dwy fil o flynyddoedd, mae'r amser mor faith  
Coron o ddrain — hen waed ar y graith,  
Hoelion o ddur yn brathu ei gnawd,  
Y fi sy'n gyfrifol, a thithau fy mrawd.

Wylo'n eu dagrau roedd Joseff a Mair  
A'r Iesu'n ein hannog i ddilyn y 'Gair',  
Ni wylltiodd yr Iesu, er garwed ei boen,  
Ac er ei groeshoelio, 'byw yw yr Oen'.

Rhagrithiwr oedd Pedr — ofn dilyn y Gŵr,  
Rhagrithiwr wyf innau, rwy'n euog rwy'n siŵr;  
Fe ganodd y ceiliog dair gwaith yn ei dro;  
Rhagrithwyr yr oes fodern sy'n dal yn y fro.

Mae'r gwleidydd bob amser yn agor ei geg,  
'Peidiwch a lladd' o hyd yw ei reg,  
Ond mae'n agor ei law i dderbyn cil-dwrn  
Am werthu ei arfau, a hynny sy'n fwrn.

Mae milwyr yr hen oes yn dal yn y byd,  
A phlant bach yn Bosnia sy'n llwgu'n y stryd;  
A'r Iesu'n ein trin mor eithriadol o hael  
Er bod dynoliaeth yn ymddwyn mor wael.

JOHN V. MORRIS, Rhianfa, Clwr-y-bont



## CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Mewn cyfarfod o'r Cyngor, a gynhaliwyd yn Ysgol Penisarwaun, bu trafodaeth ar y Cynllun Datblygu Unedol a phwysleisiwyd mor bwysig yw hi i warchod ein pentrefi gwledig ac y dylid ystyried yn synhwyrol pa fodd i ddefnyddio tir a'i ddatblygu. Awgrymwyd hefyd y dylid datblygu diwydiannau mewn mannau addas a chyfleus.

Dywedodd y Cynghorydd Len Jones i'r cyfarfod a drefnwyd gan y Cyngor Cymuned mewn cysylltiad ag Eifion Jones, Swyddog Adfywio Bro yn Neiniolen, fod yn llwyddiannus.

Unwaith eto cafwyd cwynion ynglŷn â fandaleiddio cysgodfannau aros bysiau. Mae'r Cyngor yn gefnogol iawn i gynllun 'Llwybr y Pedwar Dyffryn' a awgrymir gan Gyngor Gwynedd.


Ni fydd y Cyngor yn ystyried unrhyw gais ychwanegol am roddion eleni. Cytunwyd ar y

canlynol: eisteddfodau Penisarwaun, Bethel a Gwaun Gynfi, £200 yr un; Ysgolion Meithrin Rhiwlas, Penisarwaun a Bethel, £200 yr un; neuaddau Rhiwlas a Phenisarwaun, £200 yr un; clybiau pêl-droed Bethel a Deiniolen; Urdd St Ioan, Deiniolen; Seindorf Deiniolen, £150 yr un. Cytunwyd hefyd i roddi £25 tuag at Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Bu trafodaeth ar y mater o gefnogi cynlluniau lleol a fydd o fantais i'r gymuned yn gyffredinol mewn cydweithrediad â'r Swyddog Adfywio Bro. Cytunwyd i gynrychiolwyr y gwahanol bentrefi drafod ymysg ei gilydd gan ddod a blaenoriaeth i sylw'r Cyngor.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Ysgol Penisarwaun, 6 Ionawr 1998.

## SWYDDOG ADFYWIO BRO



EIFION JONES  
Swyddog Adfywio Bro Peris

Bellach mae gan Gyngor Gwynedd dîm o naw o Swyddogion Adfywio Bro yn gweithredu drwy ardaloedd gwledig Gwynedd. Eu gwaith yw sbarduno a chefnogi cymunedau yn eu hymdrechion i gryfhau ac adfywio. Daeth hi'n bosib i greu'r swyddi yn sgîl cymhorthdal o bron i hanner miliwn o bunnoedd o'r Gymuned Ewropeaidd.

Dywedodd Ann Owen, Swyddog Cymunedol Cyngor Gwynedd: 'Mae hwn yn gynllun arloesol yng Nghymru sy'n cynnig cyfle i gymunedau ddatblygu syniadau ac atebion newydd i'w anghenion. Mae gan bob swyddog ei fro ei hun ac mae lleoliadau'r

swyddfeydd yn amrywio o neuadd bentref i lyfrgell ac ysgol uwchradd, yn ogystal â swyddfeydd asiantaethau cyhoeddus ac adeiladau'r Cyngor ei hun. Mae'r swyddogion ar fin symud i'w swyddfeydd ac fe gyhoeddir pamffledi o'r manylion ar gyfer y cyhoedd.'

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Iwan: 'Ein gobaith yw y bydd y swyddogion yma'n cydweithio'n glôs â Chynghorau Cymuned, aelodau lleol Cyngor Gwynedd, mudiadau pentrefol ac unigolion brwdfrydig i wireddu prosiectau sy'n deillio o'r cymunedau fydd yn eu bywiogi neu'n eu hadfywio. Rhwydwaith o gymunedau yw Gwynedd ac mae'r Cyngor am wneud pob dim posib i gryfhau sylfeini cymdeithasol ac economaidd y broydd hyn er gwella ansawdd bywyd y trigolion. Bydd y swyddogion yn cefnogi a sbarduno gweithgarwch cymunedol ac fe grewyd cronfa o grantiau adfywio bro y gall y cymunedau ymgeisio amdanynt ar gyfer prosiectau penodol.'

Mae'r swyddogion wedi mynychu sesiwn hyfforddiant yn ystod yr haf ac maen nhw bron a chwblhau ymweliadau â'r Cynghorau Cymuned o fewn eu broydd.

Gellir cael mwy o wybodaeth trwy gysylltu ag Ann Owen (01286) 679528.



### NOSON GOFFI A MINS PEI

Nos Fawrth, 9 Rhagfyr  
am 6.30 p.m.

Bydd adloniant gan Gôr Waunfawr a phlant yr Urdd  
Bydd y Siop ar agor



### CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL  
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

### CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwyd mewn steil —  
mewn cerbyd *Rolls Royce*  
ar gyfer priodasau, penblwyddi  
ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun  
Ffôn: (01286) 871833

## RHODDION

£30: Mrs Dorothy May Jones, Plas Pen-gwaith, Llanberis (£20 er cof am W. T. a Mary Jones, Ysgoldy, Clwt-y-bont a £10 er cof am M. Muriel Evans, Dinorwig Terrace, Clwt-y-bont).

£20: Teulu Rudkin, Llanberis.  
£10: G. A. a C. M. Jones, er cof am Megan Jones, Nidan, Llanfairpwll. Teulu y diweddar J. Henry Williams, Ael-y-bryn, Rhiwen, Deiniolen. Teulu'r diweddar John Thomas, 61 Maes Padarn, Llanberis. Mr R. L. a Mrs E. M. Roberts, Northampton (er cof am Mrs Maggie Humphreys, 32 Rhydfadog, Deiniolen). Margaret Roberts, 3 Y Ffridd, Llanllechid.

£5: Anwen Owen, Llanrug. Mrs Betty Griffith, Gorffwysfa, Waunfawr. Mr a Mrs Ted Roberts, Bod Gwilym, Cwm-y-glo. Hywel ac Eirlys Williams, 3 Pentre Helen, Deiniolen. Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt, Penisarwaun. Robin ac Alwen, 12 Rhydfadog, Deiniolen. Mrs Grace Roberts, Hyfrydle, Ffordd Capel Coch, Llanberis.  
£3: Mr Dewi Richards, Bryn Llywelyn, Ffestiniog. Ellis Wyn Williams, 6 Ffordd Deiniol, Deiniolen.

£2: Mrs Bet Jones, Lyndale, Llanrug. Aled a Bethan Jones, Bron Eryri, Llanrug. Jim a Margaret Munro, Tŷ Capel, Penisarwaun.

**SPAR**

### Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd  
o'r wythnos at eich  
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am  
ddanfôn archeb i'ch cartref  
yn ardal Llanrug

### LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

### WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang  
o Welyau a 3P/Suites.  
Llenni Venetian a Llenni Roler.  
5,000 llathen sgwâr o garpedi  
mewn stoc — allwch chi  
fforddio prynu o batrymau?

**GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK**

Ar agor  
9-7pm  
9-5pm Sadwrn  
Ar Gau  
Sul a Mercher

### I drin a thrwsio pob math o beriannau gwnïo MENAI SEWING MACHINE CENTRE

40 Stryd Fawr  
PORTHAETHWY  
Ffôn: (01248)

714043 neu  
(01286) 674520  
Edau, Nodwyddau  
ac ati mewn stoc



# CALENDR RHAGFYR

1. Llyn **DEINIOLEN:** Merched y Wawr — ymweliad â'r Amgueddfa yn Llanberis.
4. Iau **BRYNREFAIL:** Y Gymdeithas Undebol — Mr Ralph Jones, Llanberis.
5. Gwener **DEINIOLEN:** Clwb Elidir — cinio Nadolig yng Nghonwy.  
**WAUNFAWR:** Ffair Nadolig Plaid Cymru yn y Ganolfan am 6.30 p.m.  
**LLANRUG:** Ffair Grefftau yn y Sefydliad Coffa am 7 p.m.  
**DEINIOLEN:** Ffair Nadolig Plaid Cymru yn y Ganolfan am 7 p.m.
6. Sadwrn **DINORWIG:** Noson o 'line dancing' yn y Ganolfan — plant o 7 p.m. hyd 8.15 p.m.; oedolion o 8.30 hyd 11 p.m.
8. Llyn **DINORWIG:** Y Gymdeithas Lenyddol — Mr John Hugh Hughes, Llanberis.
9. Mawrth **LLANRUG:** Merched y Wawr — cinio Nadolig yn y Bistro, Llanberis.
10. Mercher **BETHEL:** Cinio Nadolig Merched y Wawr yn Eryl Môr, Bangor.
12. Gwener **LLANRUG:** Eglwys y Plwyf — noson Caws a Gwin yn Hafan Elan. Capel y Rhos — Cyngerdd gyda Manon Llwyd a'i Ffrindiau yn y capel.
13. Sadwrn **PENISARWAUN:** Cinio Nadolig yr Henoed.
16. Mawrth **PENISARWAUN:** Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol am 6.30.
17. Mercher **BRYNREFAIL:** Y Gymdeithas Undebol — Carolau efo Seindorf Arian Deiniolen.
20. Sadwrn **CAEATHRO:** Codi a goleuo'r goeden Nadolig am 10 a.m.
21. Sul **BETHEL:** Gwasanaeth Nadolig Merched y Wawr yng Nghapel Cysegr am 6 p.m.  
**CAEATHRO:** Gwasanaeth Nadolig yn y capel am 5.30.  
**LLANRUG:** Gwasanaeth Nadolig plant Capel y Rhos am 10 a.m.  
**PENISARWAUN:** Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul Bosra am 10 a.m.
22. Llyn **PENISARWAUN:** Parti Nadolig yr Ysgolion Sul, 3 p.m. — 5 p.m.

## BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

### D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044



## MANTEISIWCH AR EICH OED!

# Dros 55?

Dewis o yswiriant  
yn rhoi gwerth  
eich arian.

Cartref a Chynnwys  
Teithio • Car

Anifail Anwes

Gwasanaeth Torri Lawr

Age Concern (Wales)  
Enterprises Limited  
Ffordd Santes Helen  
Caernarfon

Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

**AGE**  
*Concern*

INSURANCE  
SERVICES

All our profits  
support the work  
of Age Concern

## 'LLANBERIS YN GALW OHIO . . .'




Confirming QSO with "GW3GYJ" Date OCT 8-1956 Time 0840 EST  
Report 5/8-9 FB Sig Frequency 21MC PHONE Pse QSL -- Trx  
W. G. (BILL) BARTELS, 5638 Abbottsford Avenue - Cincinnati 13, Ohio, U. S. A.

Yn y rhifyn diwethaf cafwyd hanes diddorol am y diweddwr Eric Wakeham a'r trosglwyddydd radio oedd ganddo yn Llanberis flynyddoedd yn ôl. Cafwyd rhagor o wybodaeth gan ei fab, Brian, yn cynnwys y cerdyn post hwn a anfonwyd o Cincinnati, Ohio, ym mis Hydref 1956 yn cydnabod derbyn neges radio o Lanberis.

Byddai gwybodaeth dechnegol am y darllediad yn cael ei gofnodi a'i anfon yn ôl at y sawl a anfonodd y neges radio. Bu Eric Wakeham yn darlledu negeseuon o ddiwedd y 40au a thrwy'r 50au.

Anfonwyd cardiau tebyg o bob cyfeiriad, yn cynnwys y rhan fwyaf o wledydd Ewrop, Rwsia, De Affrica, Canada a'r Unol Daleithiau.



### GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:-  
Gatiau, Ffensus ac ati  
am brisiau cystadleuol  
Uned 1, Fferm Bryn Afon  
**LLANRUG**

ffôn: (01286) 650349  
(0589) 899901



### W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR  
GWRES CANALOG

Pant Tirlon, Llanrug  
Ffôn: (01286) 673248

Gosodwr

Nwy

Cofrestredig

Corgi



Aelod o'r  
Association  
of Mechanical  
Services  
Contractors

Dim un dasg rhy fychan  
Dim un dasg rhy fawr

## BRYSIWCH!

Archebwch eich  
TWRCI NADOLIG  
a'ch CYW IÂR  
a CHIGOEDD  
ERAILL  
RŴAN



oddi wrth

### Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE  
**LLANRUG**

Ffôn:

Caernarfon 673574

PEN CIGYDD Y FRO  
MYNNWCH Y GORAU  
A DEWCH ATOM NI

### Emyr Jones

PLYMAR  
A PHEIRIANNYDD  
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,  
olew, tanwydd solat  
a thredio peipiau

44 Glanffynnon  
**LLANRUG**

(01286) 673513

hefyd

(0374)  
496616

(symudol)








Y LLE DELFRYDOL  
I BRYNU ANRHEG  
NADOLIG I'CH  
ANIFEILIAID ANWES

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd  
Dda oddi wrth Jill, Peter a James



**GARTH MAELOG**  
**PET CENTRE**  
**& GROOMING SALON**  
51 STRYD FAWR  
LLANBERIS 870840



Pum tudalen o  
**GYFARCHION**  
**NADOLIG O**  
**LANBERIS**

CEFNOGWCH EIN  
HYSBYSEBWYR  
Y NADOLIG HWN!



**DAFYDD**  
**OWEN**  
**TRYDANWR**

Pob math  
o waith trydanol  
a Larwmau Lladron

Nadolig  
Llawen  
a Blwyddyn  
Newydd Dda



**11 Rhes Faenol**  
**LLANBERIS**  
Ffôn: (01286) 871680

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda  
i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth



**E.W. Pritchard**  
**CENTRAL GARAGE**  
**Llanberis**

Ffôn: 870202 a 870272  
TREFNWYR ANGLADDAU  
CEIR AR GYFER PRIODASAU  
GWASANAETH TACSI



Brysiwch i gael eich  
**TEGANAU, SIOCLED,**  
**CARDIAU NADOLIG**  
**AC ANRHEGION CAIN**  
yn siop

**GWYNETH AC EIFION**  
**ROBERTS**  
CACENNAU NADOLIG  
A BARA BRITH  
TRADDODIADOL

**COFIWCH FOD EIN CAFFI CEGIN ERYRI**  
**AR AGOR DRWY'R FLWYDDYN**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

***Fframia***

**GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU**  
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth  
Dewis eang yn cynnwys:  
**IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW**  
**KEITH BOWEN :: ROB PIERCY**

**PARC PADARN, LLANBERIS (870922)**  
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda  
oddi wrth bawb yn y gwesty.  
Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn.

- ★ Priodasau ★ Dathliadau
- ★ Achlysuron Arbennig
- ★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
- ★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul
- ★ Cwrw Felin Foel



**Royal**  
**Victoria Hotel**  
*wrth droed yr Wyddfa*





## LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

CYMDEITHAS EGLWYSI ST PERIS A ST PADARN. Cynhaliwyd cyfarfod yn Eglwys St Padarn nos Iau, Tachwedd 13eg, dan lywyddiaeth Mrs Ann Parry-Jones, a groesawodd yr aelodau a'r gŵr gwadd, Mr Roger Williams o Goleg Menai, Bangor. Dechreuwyd trwy weddi gyda Mrs Moreen Lennon yn arwain.

Cafwyd noson arbennig o ddiddorol gyda Mr Williams yn dangos ei ddawn artistig a choginio ac yn trin ffrwythau trofannol — a'r aelodau yn eu mwynhau yn arw yn ddiweddarach. Diolchwyd iddo ac i ferched y te, sef Mrs Evelyn Williams a Mrs Margaret Griffiths, gan Mrs Betty Humphreys. Enillwyd y raffl gan Mrs Margaret R. Jones, Llanrug sy'n aelod newydd o'r Gymdeithas y mis hwn. Ceir manylion y cinio Nadolig a'r trefniadau yn ddiweddarach.

UNDEB Y MAMAU. Prynhawn dydd Mawrth, Tachwedd 4ydd, cynhaliwyd y cyfarfod misol yn festri Eglwys Sant Padarn a'r Rheithor, y Parchg Philip Hughes, arweiniodd y gwasanaeth. Ein gŵr gwadd oedd Mr John Huw Hughes, Tan-y-clogwyn a chafwyd pnawn hynod o ddifyr yn ei gwmni. Testun ei sgwrs oedd 'Hiwmor yn ein Haddoldai' a mwynhawyd ei sgwrs yn fawr iawn gan yr aelodau.

Dewiswyd Mrs Betty Humphreys i osod y dorch ar y Gofeb ar ddydd Sul y Cofio.

Trafodwyd un neu ddau o faterion busnes ac yna fe gafwyd paned. Pwnc a drafodwyd hefyd oedd y parti Nadolig y mis nesaf — addawol iawn wir. Diolchwyd i Mr John H. Hughes ac i Mrs Jean Roberts a Mrs Bet Hughes am y te gan Mrs Audrey Evans ac eiliwyd y diolch gan Mrs Betty Humphreys. Enillydd y raffl oedd Mrs Muriel Morris. Diweddwyd trwy adrodd y Gras.



Treuliodd plant hynaf yr Ysgol ddiwrnod yn yr Amgueddfa Lechi yn nhŷ'r Rheolwr sydd wedi ei adnewyddu'n ddiweddar. Gwaith caled oedd y coginio 'ma . . .

CLWB FFRINDIAU YSGOL DOL-BADARN. Enillwyr mis Tachwedd oedd — £35: Mrs M. Price, 28 Dôl Elidir (41); £25: Mr J. Pike, 2 Bryn Hyfryd (37); £15: Mr W. Jones, Dreflan (170); £10: Mr K. Roberts, 'Rallt Isaf (82); £5: Mrs M. Hellfeld, 6 Rhesdai Fictoria (76). Diolch am eich cefnogaeth.

PLAS PEN-GWAITH. Cyfarchion pen-blwydd i Mrs Munroe a Mrs Beryl Jones oddi wrth pawb yn y cartref. Cydymdeimlwn â theuluoedd Mrs Mary Davies a Mrs Maggie Thomas, Deiniolen yn eu profedigaeth. Dymunwn wellhad buan i Mrs Peggy Jones sydd yn Ysbyty Gwynedd. Aeth y trigolion am drip i Gricieth efo'r bws mini ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain. Diolch i Derek Roberts y gyrrwr. Mae'r trigolion yn ddiolchgar iawn i'r Parchg Emyr Owen, Ciwrat Eglwys St Padarn, am roi Cymun iddynt yn ddiweddar.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL. Cafwyd dau gyfarfod o'r Gymdeithas erbyn hyn. Yn y cyntaf ar Fedi 9fed cafwyd sgwrs gan y Parchg Iorwerth Jones Owen, Caernarfon. Ac ar Hydref 7fed cymerodd yr aelodau ran mewn cwis ysgafn. Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas nos Fawrth, Rhagfyr 16eg. Ceir noson ar y thema 'Sŵyn y Nadolig' yng nghwmni Lleisiau Lliwedd a bydd paned a mins pei ar gael. Bydd y noson hon yn agored a bydd croeso cynnes i rai nad ydynt yn aelodau o'r Gymdeithas ddod yno. Dechreuir am 7 o'r gloch. Dowch i ddathlu'r Nadolig gyda ni.

COLLED. Collwyd un o drigolion hynaf yr ardal yn ddiweddar pan fu farw Mrs Elin Griffith, Bryn Llwyd, Stryd Newton a hithau dros ei chant oed. Bu farw yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon. Yno yr oedd Mrs Griffith pan ddathlodd ei phen-blwydd yn 100 oed. Ond hyd yn ddiweddar cyn hynny roedd wedi llwyddo i aros yn ei chartref ei hunan, a hynny er gwaetha'r ffaith iddi golli ei golwg ers blynnyddoedd lawer. Roedd yn wraig ddiddorol, annwyl ac addfwyn, a bydd ei chyfeillion a'i theulu yn ei cholli yn fawr. Cynhaliwyd ei gwasanaeth angladd yn Nant Padarn lle bu hi a'i theulu yn hynod o ffyddlon a gweithgar trwy'r blynnyddoedd. Cydymdeimlwn â'i theulu yn eu hiraeth.

LLONGYFARCHIADAU i Melanie Barnes (Sellers gynt), merch Ken a Lola Sellers, Dôl Elidir, ar basio i fod yn Sarjant gyda'r '9th Supply Regiment' yng ngwersyll Hallavington, Chippenham. Bydd yn



. . . a gwaith caletach fyth oedd golchi dillad yn yr hen oes efo'r byrddau sgwrio. Ac er gwaetha'r gwaith caled mwynhaodd y plant eu hymwelid â'r Amgueddfa.



Amy ac Elin yn brysur yn llwytho'r anrhegion Nadolig a baratodd plant Ysgol Dolbadarn ar gyfer Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Gyda hwy mae Mr Gordon Parry a'i fab Dave oedd wedi dod o Wrecsam i nôl y bocsus. Un o blant Plastirion yw Gordon Parry wrth gwrs, ac roedd yn falch iawn o gael gweld ei hen ysgol wedi'r holl flynyddoedd. Mae'n un o weithwyr gwirfoddol yr elusen brysur hon.

dechrau ar ei gyrfa newydd yn Cyprus ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Longyfarchiadau i Mair a Ken Odogotae, Maes Padarn ar ddathlu eu priodas yn ddiweddar.

Longyfarchiadau i Sandra Tanfield ar ei phen-blwydd yn 50 oed; hefyd yr efeilliaid Karen a Susan ar eu pen-blwydd yn 18 oed; a hefyd Gail Jones ar ddathlu ei phen-blwydd yn 21 oed.

PENBLWYDD HAPUS. Dymuniadau gorau i Sarah Jarvis ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar Dachwedd 23ain. Pob lwc oddi wrth y teulu oll.

DYMUNIADAU GORAU. Mae Ffion, Ian, Elin a Ceri a'r teulu oll yn dymuno'n dda gyda llwyr o gariad i Taid a Nain, sef John a Catherine Williams, 6 'Rallt Goch' ar achlysur dathlu eu priodas ruddem ar Ragfyr 7fed.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad i Dewi Ellis a'i ferch Eleri ac i'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli gwraig a mam annwyl, Mary Eirlys Ellis.

DIOLCH. Dymuna teulu y diweddar John Thomas, sef Catherine Ellen (gwraig); Helen a Dafydd (merch a mab yng nghyfraith); Meirion, Diana a Sharon (mab, merch yng nghyfraith ac wyres); Muriel, Pete, Michele ac Alan (merch, mab yng

nghyfraith, wyres a'i gŵr) ddiolch yn ddiffuant iawn am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a dderbyniwyd mewn gair a gweithred. Diolch i'r teulu am y blodau.

Gwerthfawrogi'r holl lythyrau, cardiau, galwadau a'r rhoddion hael tuag at gartref Pen-gwaith. Diolch i staff Pen-gwaith am eu caredigrwydd a'u gofal. Diolch i Iwan, Terence, Owain ac Alan am eu cymorth. Diolch i'r Parchg John Pritchard a'r Parchg Huw G. Roberts am eu caredigrwydd a'u gwasanaeth cysurol. Diolch i M. Pritchard am yr holl gymorth ynglŷn â'r trefniadau.

## NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant  
Ffôn: (01286) 870356

Camera yn ngofal John Pritchard Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DYWEDDŶAD. Longyfarchiadau i Steve a Cheryl, 1 Bro Glyder ar eu dyweddŷad yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Colin Sibley, Ceunant ddiolch am bob caredigrwydd a dderbyniodd yn ystod ac yn dilyn ei waeledd a'i arhosiad yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Dymuna Colin a Siân ddiolch hefyd i bawb am yr anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniwyd wedi geni eu mab, Jordan. Diolch i'r teulu a chymdogion a ffrindiau.

PARTI NADOLIG. Bydd pwyllgor y Carnifal yn trefnu te parti i holl blant y pentref yng Nghaban Dinorwig, Ty'n Llan am 4 o'r gloch, bawn Sul, Rhagfyr 14. Bydd bwyd a diod ar gael i'r plant a daw Siôn Corn heibio am dro. Ffoniwch Lola — 870457 — fel ein bod yn cael rhyw syniad o nifer y plant fydd yn dod i'r parti. PRIODAS. Longyfarchiadau i Helen, Tŷ Isaf ar ei phriodas â Bedwyr, ddydd Sadwrn, Tachwedd 1. Cynhaliwyd y briodas yng Nghapel Rehoboth.

REHOBOTH. Cynhaliwyd y Gwasanaeth Diolchgarwch yn y capel ddydd Sul, Hydref 27. Bydd gwasanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul yn cael ei gynnal yng Nghapel Coch, Llanberis, am 2 o'r gloch brynhawn Sul, Rhagfyr 21. Croeso cynnes i bawb.



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN  
NEWYDD DDA ODDI WRTH

PAT A KEN

CREFFTAU FFERM  
**CAE COCH**

STRYD FAWR, LLANBERIS

**Ffôn: 870777**

GALWCH I MEWN AM ANRHEGION  
NADOLIG ANGHYFFREDIN

Diolch i bawb am eich cefnogaeth  
drwy'r flwyddyn



CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU



oddi wrth



W.J. DAVIES

**MODURDY'R  
WYDDFA**

LLANBERIS Ffôn: 870225



M.O.T.

Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos  
Hefyd

JOHN WHITE

**THE BODY SHOP**

LLANBERIS

★ Trwsio wedi damweiniau

★ Ailsbreio

★ Curo paneli

**Bistro**  
LLANBERIS  
Ffôn 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

Beth am Fwffe Enwog Nerys

i ddatlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas  
Partion rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.  
Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro —  
nos Wener olaf bob mis

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA  
ODDI WRTH DANNY, NERYS A'R STAFF

Am anrhegion y Nadolig dowch i  
Siop Nwyddau Tŷ a Gardd

**FORMAG**



41A Stryd Fawr  
Llanberis 872501



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i  
chwi oll oddi wrth

Ifor a Margaret

Diolch am eich cefnogaeth  
trwy gydol y flwyddyn




Gwesty

**Dolbadarn**

LLANBERIS Ffôn: 870277



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn Jones a'r staff




CYFARCHION  
Y TYMOR



i bawb  
yn yr ardal

oddi wrth

**TRÊN BACH  
LLYN  
LLANBERIS**





# Taith Faith i Ben y Mynydd



Owain Siôn Williams o Fethel (Robin) ac Iwan Rhys Williams o Lanrug (Wil Coesau Bachog) — dau o'r sêr ifanc sydd i'w gweld yn y ffilm 'Y Mynydd Grug'.

'Rhywbeth roeddwn i wastad isio'i 'neud,' dyna deimlad Dyfan Roberts am *Y Mynydd Grug*, yr addasiad ffilm o gyfrol o straeon byrion Kate Roberts, *Te yn y Grug*, sydd — yn ei dyb o — yn un o weithiau gorau'r awdures o Rosgadfan. Dyfan gynhyrchodd y ffilm gan gwmni Llun y Felin o Lanrug, gyda'i wraig, Angela' yn gyfrifol am ysgrifennu'r sgript a'r cyfarwyddo. Dangoswyd y ffilm am y tro cyntaf yng Ngŵyl Ffilm Ryng-wladol Cymru nos Sadwrn, 22 Tachwedd.

'Mi gychwynnodd y prosiect nôl yn 1991, felly mae 'na dalp o 'mywyd i wedi mynd yn gweithio arni hi,' meddai Dyfan. 'Ond er bod o'n swinio'n amser hir mi gawsom ni drafodaethau brwd am y sgript cyn ac yn ystod y cyfnod ffilmio, felly mae'r ffilm wedi datblygu ac aeddfedu dros y blynyddoedd.' Ac mae'n cysuro'i hun gyda'r wybodaeth fod Richard Attenborough wedi treulio ugain mlynedd yn gweithio ar y ffilm *Gandhi*!

Ond peidied neb â disgwyl gweld gwaith Kate Roberts yn cyrraedd y sgrin fawr yn union fel petai wedi'i drosglwyddo air am air o brint. Mae Dyfan yn pwysleisio mai man cychwyn oedd y gyfrol.



Dyfan Roberts, cynhyrchydd y ffilm sydd hefyd yn chwarae rhan y Stiward.

'Mae'n bwysig nodi mai *Y Mynydd Grug* ydi'r ffilm ac nid *Te yn y Grug*, ac mai seiliedig ar waith Kate Roberts ydi hi. Yn y gwreiddiol yr hyn a gafwyd oedd portread o gymdeithas trwy lygad hogan fach. Yn y ffilm mae'r portread wedi ei ehangu i gwmpasu cymdeithas gyfan. Mae rhai cymeriadau oedd yn ymylol yn y straeon byrion wedi dod yn fwy canolog ac mae 'na storïau newydd wedi eu creu yn arbennig ar gyfer rhai ohonyn nhw nad oedd yn ymddangos yn y gwaith gwreiddiol,' meddai Dyfan.

Dyma'r tro cyntaf i Dyfan gynhyrchu ffilm-ynod ac roedd yn rhyfeddu at faint o waith paratoi oedd ei angen — a hynny nid yn unig o safbwynt problemau ymarferol ffilmio golygfeydd o ddechrau'r ugeinfed ganrif, a'r ganrif honno'n tynnu tuag at ei therfyn.

'Yn naturiol, roedd yn rhaid cuddio cêbls trydan a ffôn ac unrhyw arwyddion o'r cyfnod cyfoes, nid yn unig o safbwynt gweledol ond hefyd o ran sain. Dwi'n cofio un adeg pan oedden ni'n ffilmio yn ardal Tal-y-sarn yn ystod y gaeaf a chael trafferthion gyda fan oedd yn gyrru o gwmpas gyda chyrn sain arni yn hysbysebu bod Santa Clôs yn yr ardal. Mi fu'n rhaid i ni ofyn yn garedig i Santa am hysbysebu ychydig tawelach!'

Gyda'r ffilm yn cael ei dangos am y tro cyntaf yng Ngŵyl Ffilm Ryng-wladol Cymru mae Grant Vidgen, cyfarwyddwr yr ŵyl, yn falch ei bod yn rhan o'r arlwy Gymreig yn y nawfed gŵyl, a hynny ar adeg pan fo sinema yng Nghymru yn gryfach nag a fu ers cryn amser.

'Mae'r ŵyl yn awyddus iawn i roi llwyfan i ffilmiau o Gymru ac i roi cyfle i waith cyfarwyddwyr Cymreig i gael eu dangos. Mae'n bwysig iawn i ni brofi bod ffilmiau Cymraeg yn medru cystadlu a chymharu'n ffafrïol gyda'r gorau yn y byd,' meddai.

## WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

**DYWEDDIO.** Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Catrin Lowri, 3 Stad Croesywaun ar ei dyweddïad â lolo Gwyn o Langwyllog, Ynys Môn. **CYDYMDEIMLO.** Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs K. Williams, Stad Croesywaun ac i Norman Williams, Llidiart Wen yn eu profedigaeth lem o golli priod a thad annwyl, y diweddar Mr Hugh Williams; ac hefyd â mr Emllyn Williams, Stad Croesywaun ar golli ei frawd. Hyderwn fod Mrs Williams yn cryfhau wedi iddi fod yn yr ysbyty am gyfnod.

**YN YR YSBYTY.** Anfonwn ein cofion cynhesaf am wellhad buan i Mr W. Jones, Graianfryn sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

**LLONGYFARCHIADAU** i Mrs Kitt Jones, Beudy Isaf ar ddod yn hen nain. Ganwyd mab Ellis, i'w hwyres Kate a Roger.

**DATHLU PEN-BLWYDD.** Llongyfarchiadau i Manon Evans, Arfryn ar gyrraedd ei 18 oed. Dymuniadau gorau iti i'r dyfodol, Manon.

**SWYDD NEWYDD.** Llongyfarchiadau i Beca Brown, Gwelfor ar gael ei derbyn i swydd gyda thîm 'Y Byd ar Bedwar', rhaglen ddogfen ar S4C. Bydd Beca yn cychwyn ar ei swydd newydd ym mis Ionawr.

**ADREF O'R YSBYTY.** Croesawn Mrs Spark, Tremnant a Mrs Beryl Lloyd Jones, Dôl-y-coed adref wedi iddynt orfod treulio cyfnod yn yr ysbyty.

**Y GYMDEITHAS LENYDDOL.** Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos Lun, 10 Tachwedd, pryd y cafwyd sgwrs gan Mr Alun Ffred Jones ar y testun 'Dyddiadur fy Mam'. Llywydd y cyfarfod oedd Mr Rol Williams a thalwyd y diolchiadau gan Mrs Mary Vaughan Jones. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 8 Rhagfyr, pryd y ceir sgwrs gan Mr John Hugh Hughes, Llanberis. Llywydd y noson fydd Miss Marian Wyn Jones.

**CLWB BOWLIO.** Mae'r Clwb wedi trefnu noson o 'Dawnsio Llinell' (line-dancing) yn y Ganolfan nos Sadwrn, 6 Rhagfyr. Plant o 7 tan 8.15 p.m. ac oedolion o 8.30 tan 11 p.m. Pris mynediad i blant fydd £1 (yn cynnwys diod oren) a £2 (yn cynnwys paned) i oedolion. Bydd yr

elw tuag at bwyllgor y Ganolfan. Dewch yn llu i gael blas ar ddawnsio llinell.

**GALA NOFIO YR URDD.** Llongyfarchiadau i Dafydd Parry, Deion Jones, Gwion Thomas, Dafydd Greasley, Beth Greasley, Caryl Wood, Nia Jones, Rebecca Sanderson ac Angharad Owen ar gynrychioli adran bentref Waunfawr yn y Gala Nofio a gynhaliwyd ym Mangor ar 12 Tachwedd. Daeth Nia Elin Jones yn gyntaf yn y ras nofio rhydd a chefn, Caryl Lois Wood yn ail yn y dull rhydd ac yn drydydd yn y dull broga. Bu'r tîm ras-gyfnwid merched hefyd yn fuddugol a byddant hwy a Nia Elin Jones yn mynd ymlaen i'r Gala Genedlaethol ar 6 Rhagfyr ym Mangor. Dymunwn y gorau iddynt yno.

**FFAIR NADOLIG PLAID CYMRU.** Cynhelir Ffair Nadolig ar nos Wener, 5 Rhagfyr, am 6.30 p.m. yng Nghanolfan Waunfawr. Bydd yno stondinau amrywiol ac wrth gwrs gobeithir cael ymweliad gan Siôn Corn. Croesewir unrhyw gyfraniadau i'r stondinau a'r raffl a fydd yr ysgrifennydd yn falch o unrhyw gymorth — ffoniwch 650 547.

**MERCHED Y WAWR.** Ymweliad â Caffi Dimensiwn 4 wnaeth y gangen nos lau, Hydref 30. Estynnwyd croeso i bawb gan y llywydd, Gill Brown.

Diolchwyd i Gwyneth Ellis, perchennog y caffi, am ei chroeso ac am noson mor ddiddorol gan Alma Jones. Enillwyd y raff, rhoddedig gan Rhian Ellis, gan Cadi Jones. Byddwn yn dathlu'r Nadolig ar 4 Rhagfyr. **CÔR Y WAUN.** Mewn cyfarfod yng Nghanolfan y pentref cymerwyd penderfyniad ffurfiol i sefydlu côr yn y pentref. Roedd tua deg ar hugain yn bresennol ac yn hynod frwdfrydig.

Bydd y côr yn ymgynnull bob nos Sul am 7.30 yn y Ganolfan, dan arweiniad Mrs Gwenda Griffith gyda Mrs Lola Llewelyn yn cyfeilio.

Etholwyd Gwynn Davies yn llywydd; Mrs Iris Owen, 5 Tŷ Hen yn ysgrifennydd; ac Eurwyn Griffith, Trefeddyg yn drystorydd.

Croesewir aelodau newydd i'r côr ar dâl aelodaeth o £5.

Bydd llawer yn cofio'r sôn am gôr enwog Waunfawr dan arweiniad Eryr Eryri ar droad y ganrif. Hei lwc y bydd y côr newydd yn cyrraedd yr un safon ac enwogrwydd.

**ENILLWYR Y CLWB 300** am fis Hydref — £40: Mr John Edwards, Capri; £25: Mr E. A. Roberts, Pant Afon; £10: Mr W. J. Jones, Tryfan.



**Oeddech chi yng Nghaernarfon y Sadwrn o'r blaen? Welsoch chi injan dân yn sgrialu tua Swyddfa Arfon ym Mhenrallt heb na seiren yn canu na golau glas yn fflachio. Brysio yno'n ddistaw oedd y bobl tân rhag achosi gormod o banics i wraig DDEL o'r Waunfawr oedd yn sownd mewn lifft, a hithau'n disgwyl bod yn am am yr eildro ymhen ychydig wythnosau. Roedd hithau'n falch nad oedd ar ei phen ei hun yn y lifft gan fod cydweithiwr o'r un pentref yno gyda hi. Mi DDYLAN ni egluro bod yno ddau arall yn y lifft hefyd, a bod y dynion tân wedi llwyddo i'w rhyddhau mewn fawr o dro.**

MAE'R  
**SAMARIAID**  
YN GWRANDO  
YN ABBEY ROAD



**BANGOR**  
(01248)  
**354646**





Cyfarchion y  
Nadolig oddi wrth  
Roger a'r staff, a  
dymuniadau gorau  
am y flwyddyn  
newydd

RYDYM YN DAL I GYMRYD  
ARCHEBION AR GYFER PARTÏON  
NADOLIG A CHINIO DYDD NADOLIG  
OND — BRYSIWCH NEU MI FYDD  
YN RHY HWYR!




Nadolig Llawen  
a Blwyddyn  
Newydd Dda  
oddi wrth

Michal a Brigid  
Moran a'r plant  
**Sea Fresh  
Chip Shop**  
Stryd Fawr  
LLANBERIS  
870425

Diolch am eich cefnogaeth  
trwy gydol y flwyddyn

Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth  
PAUL JONES  
a phawb yn  
SIOP SGLODION  
SNOWDON  
VALLEY  
LLANBERIS



Galwch heibio am  
bryd blasus

Dymuna pawb  
yn siop

Valerie J. Jones  
Glan y Don  
Llanberis 870301

ddiolch yn fawr iawn  
am bob cefnogaeth dros  
yr holl flynyddoedd

\* \* \*  
NADOLIG LLAWEN A  
BLWYDDYN NEWYDD DDA  
I CHWI OLL

\* \* \*  
Pob llwyddiant i Mr a Mrs Smith  
y perchnogion newydd

**O LAW  
I LAW**



57  
Stryd  
Fawr  
**LLANBERIS**  
Ffôn: 0976 313397  
Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd Dda  
oddi wrth  
Cathy, Brian a'r plant

CYFARCHION Y TYMOR  
oddi wrth

**H.E. HUGHES**  
a'r MEIBION



870  
902

870  
444

ac 872200

MASNACHWYR GLO

I BYTHYNNOD GADLYS LLANBERIS



DYMUNA  
MERVYN, DILYS  
a JENNIFER



**CASTLE  
GIFT SHOP**  
LLANBERIS Ffôn: 870379

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gwsmeriaid.  
Diolch i chi am eich cefnogaeth

Galwch eto am: Bapurau Newydd, Anrhegion, Sigarets,  
Melysion, Llyfrau a llawer mwy

**joe  
brown**  
CLIMBING & CAMPING  
EQUIPMENT SPECIALIST

Am anrhegion  
Nadolig a  
werthfawrogi  
trwy'r flwyddyn

- ★ Dewis rhagorol o lyfrau ar deithio a mynydda
- ★ Sanau a Siwperi trwchus
- ★ Cotiau a Sgidiau Dal Dŵr
- ★ Dillad Thermal ★ Capiau a Menig Gwlân


**Llanberis, Ffôn 870327**

**Hefyd yng Nghapel Curig**  
(tu cefn y post) Ffôn: 01690 720205

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

joe brown

Oddi wrth gwmni Trên Bach yr Wyddfa



**SNOWDON  
MOUNTAIN RAILWAY**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll



# LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

PARTI CLYCHAU'R GRUG. Bu'r parti yn Y Groeslon nos Wener, Tachwedd 7fed, i gynnal noson ar y cyd â phlant Ysgol y Groeslon er budd Ymchwil y Galon. Tachwedd 23ain aeth y genod i ddiddori'r henoed ym Mhlas Maesincla. Byddant yn cymryd rhan yng nghyngerdd Seindorf Llanrug ar Ragfyr 3ydd yn Ysgol Uwchradd Brynrefail. Bydd eitem o garolau gan y parti yng ngwasanaeth 'Cadwyn y Nadolig' gan Fercher y Wawr, rhanbarth Arfon, nos Sul, 7fed o Ragfyr am 8 o'r gloch yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon. Byddant yn ymweld â Llys Eiddon ar Ragfyr 4ydd i ganu carolau gyda'r trigolion. Yna i orffen y tymor bydd cinio i ddathlu'r Wyl ar Ionawr 9fed.

Y SEFYDLIAD COFFA. Mewn cyfarfod o bwyllgo rheoli Sefydliad Coffa Llanrug a gyfarfu nos Fercher, Tachwedd 12fed, penderfynwyd gwario swm sylweddol o arian i dalu am astudiaeth ymarferol. Bydd y gwaith yn cael ei wneud gan gwmni PenSel, Llanrug. Yn y cyfamser mae cais yn cael ei gyflwyno Fwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol ac i Gronfa Prosiectau Cymunedol RIBA/BT i ofyn am gymorthdal ariannol i dalu am yr astudiaeth.

Yn ystod y ddeufis nesaf bydd cysylltiadau'n cael eu gwneud â holl fudiadau a chymdeithasau'r pentref i ofyn eu barn ynglŷn â'u anghenion parthed y Sefydliad Coffa. Bydd croeso hefyd i unigolion sy'n byw o fewn y pentref i fynegi eu barn. Mae casglu'r holl wybodaeth hon yn hynod bwysig er mwyn gallu cyflwyno cais am grant adeiladu ac addasu'r adeilad i ateb anghenion poblogaeth Llanrug i'r ganrif nesaf. Rhoddir pwyslais arbennig ar farn, syniadau ac argymhellion pobl ifainc a/neu rieni ifanc sy'n byw yn y pentref — wedi'r cyfan, chi fydd yma i ddefnyddio'r cyfleusterau ymhell i'r ganrif nesaf, gobeithio.

Mae croeso i chwi gysylltu â swyddogion neu aelodau'r pwyllgor — rhoddwyd rhestr gyflawn o'u henwau a'u cyfeiriadau yn yr Eco fis Hydref eleni.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fercher, Ionawr 21ain am 7.30 o'r gloch yn Y Sefydliad Coffa. Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb fod yn bresennol.

FFAIR CREFFTAU. Bydd trydedd Ffair Crefftau Llanrug yn cael ei chynnal eleni nos Wener, Rhagfyr 5ed, am 7 o'r gloch yn y Sefydliad Coffa, Llanrug. Fel arfer bydd

arddangosfeydd o wahanol waith crefftwyr lleol, yn amrywio o waith coed i waith gwnïo, arlunio a modelu. Bydd cyfle hefyd i brynu rhai o'r gwahanol fathau o gynnyrch fydd yn cael eu harddangos — cyfle gwyh i brynu crefftau lleol yn anrhegion Nadolig. Os oes unrhyw un â diddordeb mewn arddangos yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (ffôn: 01286 673515). Bydd holl elw'r noson yn mynd tuag at gronfa adnewyddu'r Sefydliad Coffa.

DYMUNIADAU GORAU am wellhad buan i Mrs Vera Williams, Awelon, Ffordd yr Orsaf. Mae hi gartref erbyn hyn wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Broadgreen, Lerpwl.

Yr un yw'n dymuniad i Mr Myrddin Williams, Panterfyn yntau yn glaf yn Ysbyty Gwynedd — brysiwch wella.

Mae'r un dymuniadau i bawb sydd ddim yn dda eu hiechyd yn y pentref. NOSON CAWS A GWIN. Cynhelir noson caws a gwin yn Hafan Elan, nos Wener, Rhagfyr 12fed am 7 o'r gloch. Yn ystod y noson bydd y raffl fawr yn cael ei thynnu. Dymuna alodau y Cyngor Plwyfol Eglwysig ddiolch i bawb a gefnogodd weithgareddau codi arian er bydd yr Eglwys drwy gydol y flwyddyn. Mae'n diolch hefyd i'r rhai a anfonodd arian tuag at dorri'r gwaith a thacluso'r fynwent ac mae'r apêl yn dal yn agored i dderbyn rhoddion tuag at y gwaith y flwyddyn nesaf. DIOLCH. Dymuna Bet Jones, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i bawb am gefnogi'r Noson Goffi a gynhaliwyd yn ddiweddar. Diolch i ferched Hafan Elan, Penisarwaun a Llanrug ac hefyd i Mrs Joan Williams. Gwnaed elw o £252 er budd Menter Fach-wen.

DIOLCH. Dymuna Aled a Bethan Jones, Llys Eryri ddiolch i bawb am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth Megan Catrin.

DYMUNA Anwen, Dafydd, Elin ac Ifan, Bryn Moelyn a Mrs J. Jennie Owen, Blaenau Ffestiniog, ddiolch o waelod calon i ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a estynwyd iddynt yn eu profedigaeth yn ddiweddar.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn yr Ysgol Gynradd nos Fawrth, Tachwedd 11 gyda Bethanne Williams yn y gadair. Cydymdeimlwyd ag Anwen Owen yn ei phrofedigaeth o golli ei thad ac ag Ann Evans am y ddamwain angeuol i ffrind agos i'r teulu.

Cofiwyd yn annwyl iawn am Megan Humphreys aelod ffyddlon o'r gangen a chymeriad arbennig iawn a fu farw yn ddiweddar a chytunwyd i roi blodau er cof amdani yng Nghapel y Rhos. Dymunwyd gwellhad buan i Eileen Thomas.

Cyhoeddwyd y manylion am y gwasanaeth carolau sydd i'w gynnal yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon nos Sul, Rhagfyr 7fed am 8 o'r gloch; ac am gystadleuaeth Merched y Wawr ar gyfer Sioe Llanelwedd. Llongyfarchwyd Julie Jones ar gael ei dewis i arddangos un o'i lluniau cwilsio yn y Sioe eleni.

Cyhoeddwyd manylion y cinio Nadolig sydd i'w gynnal yn y Bistro, Llanberis ar Ragfyr 9fed. Enwau ac arian i Margaret Jones neu Ann Lloyd Griffith cyn diwedd Tachwedd, a'r pris yw £13.50.

Croesawyd gwraig wadd y mis, Eira Wyn Huws yn gynnes iawn, merch o Lanrug ond yn byw ar lannau Mersi ers peth amser. Treuliwyd noson ddifur a diddorol yn ei chwmni pryd y bu'n arddangos enghreifftiau o'i gwaith cwiltio cywrair a rhyfeddwyd at ei chasgliad lliwgar. Mwynhawyd ei hanes o'i ymweliadau â'r Amish yn America pryd y dysgodd lawer am ei chreffft fedrus.

Diolchwyd i Eira am noson hwyllog a diddorol gan Eryl Roberts.

Rhoddwyd y te gan Helen Parry, Megan Roberts a Mary Roberts a diolchwyd iddynt gan Margaret Parry. Enillydd y raffl — basged o ddefnydd wedi'i gwneud gan Eira Wyn Huws — oedd Jean Roberts. CAPEL Y RHOS. Dydd Sul, Rhagfyr 7 gwasanaethir gan y Gweinidog, y Parchg Dafydd Hughes am 10 a 5.30. Yn ystod oedfa'r bore gweinyddir y Cymun a dadorchuddir Cofeb i'r diweddar Barchedig W. O. Roberts. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Atgoffir yr aelodau y bydd llyfrau cyfrifon y Capel yn cau ddydd Mercher, Rhagfyr 31, a gofynnir am eich cyfraniadau cyn y dyddiad hwnnw, os gwelwch yn dda.

Nos Wener, Rhagfyr 12, cynhelir cyngerdd Nadoligaidd ei naws yng nghwmni Manon Llwyd a'i ffrindiau yn y Capel am 7.30 o'r gloch. Bydd yr elw tuag at ymgyrch 'Law yn Llaw' Cymorth Cristnogol, a Chymdeithas y Deillion. Tocynnau ar gael gan aelodau'r Capel neu trwy ffonio 676356 a'u pris i oedolion yw £3 a £1 i blant. Bydd y BBC yn recordio'r cyngerdd i'w ddarlledu fore'r Nadolig.

Dydd Sul, Rhagfyr 21, bydd gwasanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul am 10 y bore gyda'u parti Nadolig o 3 hyd 4.30 o'r gloch.

## CLWB ERYRI

Yn y cyfarfod yng Ngwesty'r Victoria, nos Wener, Tachwedd 7, estynnwyd croeso arbennig gan y llywydd, Cledwyn Pritchard Jones, i'r aelod newydd, Eurwyn Griffith, Waunfawr. Dymunwyd iddo hir a ffrwythlon gysylltiad â'r Clwb a'i weithgareddau. Mynegwyd cydymdeimlad ag Arwel Jones a'r teulu yn eu colled ddiweddar a dymunwyd y gorau i'r cynlywydd, J. Norman Davies, oedd ar fin derbyn triniaeth yn yr ysbyty.

Llongyfarchwyd siaradwr y noson, Stanley Owen, ar ddathlu ei ben-blwydd yn bedwar ugain yn ddiweddar a Dei Tomos ar gael ei ddewis i wasanaethu ar Gyngor Cefn Gwlad Cymru.

Gan wisgo ei het ddwbl fel cadeirydd y noson a phrydydd y Clwb, cyflwynodd R. Gwynn Davies y siaradwr mewn odl a rhyddiaith a hynny yn ddoniol a chynnil. Yn eu tro, mwynhaodd yr aelodau ffrwyth ymchwil

trylwyr a huodledd hwnnw mewn sgwrs a ymdriniai â'r ymrafael a fu rhwng Esgob Bangor a phlwyfolion un o eglwysi Môn yn 1777 pan ddedfrydwyd o blaid yr olaf mewn Llys Eglwysig a gyfarfu yn Stryd Bow, Llundain. Sail y gynnen oedd yr anallu i gyfathrebu er lles yr enaid â rheithor uniaith Saesneg a theg felly oedd i'r praid gyfeirio ei gwyn y tu draw i glust fyddar Bangor, a'i penododd yn y lle cyntaf. Fel canlyniad i'r ddedfryd, sefydlwyd Cymro Cymraeg yn yr ofalaeth a gyrrwyd yr Esgob yn ôl at ei wreiddiau y tu draw i Glawdd Offa.

Wedi aml i sylw a thrafodaeth o'r llawr, diolchwyd i'r siaradwr gan yr ysgrifennydd. I gloi, cyhoeddwyd bod y Clwb yn cyfarfod nesaf nos Wener, Rhagfyr 5, pryd y ceir anerchiad gan Dafydd Ellis, Brynrefail a John Hugh Hughes, Llanberis yn y gadair.

IOLO HUWS-ROBERTS

## NEWYDDION CAEATHRO

(Parhad o dudalen 7)

wythnos cyn y cyfarfod ac roedd pawb o blaid ei derbyn fel cofnod cywir o'r gwariant yn ystod y flwyddyn. Talwyd diolchiadau i'r trysorydd am ei waith graenus. Ailetholwyd y swyddogion — Cadeirydd: Clive James; Trysorydd: Cadwaladr Evans; Ysgrifennydd: Alun Roberts. Etholwyd y canlynol yn aelodau o'r pwyllgor — Huw Ceiriog, Wyn Jones, Wendy Thomas, Shaun Atkinson, Dafydd Roberts a Peris Thomas.

TYNFA FISOL. Enillwyd mis Tachwedd oedd — £40: Dafydd Roberts, 5 Brynteg (51); £25: Mrs M. Henderson, 6 Erw Wen (78); £15: Mr a Mrs B. Griffith, Delfryn (31); £5: Derwyn a Rhiannon

Roberts, Cefn Rhos Isaf (89). NADOLIG YNG NGHAEATHRO. Diolch i ymdrechion gwirfoddolwyr gall trigolion y pentref, o bob oed, ddathlu'r Wyl trwy fis Rhagfyr! Dyma rai o'r digwyddiadau: Sadwrn, 6 Rhagfyr am 8 a.m. Taith siopa i Gaer. Enwau i Alun Roberts, 10 Erw Wen. Sadwrn, 20 Rhagfyr am 10 a.m. Codi a goleuo y goeden Nadolig — coeden orau'r ardal! Sul, 21 Rhagfyr am 5.30 p.m. Gwasanaeth Nadolig yn y Capel. Llun, 22 Rhagfyr am 5 p.m. Parti Nadolig y plant yng Nglangwna efo Siôn Corn. Yn ogystal bydd Siôn Corn yn galw heibio aelwydydd pensiynwyr y pentref. Iau, 25 Rhagfyr — Diwrnod 'Dolig!

## CAPEL Y RHOS, LLANRUG

### Cyngerdd Law yn Llaw

Noson Nadoligaidd ei naws yng nghwmni

MANON LLWYD a'i FFRINDIAU

Nos Wener, Rhagfyr 12, am 7.30 o'r gloch

Tocynnau: Oedolion £3 Plant £1

yr elw tuag at Cymorth Cristnogol a Chymdeithas y Deillion

Tocynnau ar gael gan aelodau'r Capel neu ffoniwch 676356

BYDD Y BBC YN RECORDIO'R CYNGERDD I'W DDARLLEDU FORE NADOLIG



## CELF Y COPÄON

MOUNTAIN ART

Stryd Fawr  
LLANBERIS 870925

Am luniau mynyddoedd

\*Peintiadau \*Printiadau

\*Posterï \*Ffotograffau



Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd  
Dda i bawb

Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd Dda  
oddi wrth Sue Lowe

## odyn copr

66 Stryd Fawr  
Llanberis



Ffôn: 871366

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda  
oddi wrth

Garvin, Wil a Jim

## W.G. ALLSUP

Storfa Gig Glan Padarn



LLANBERIS 870319

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll  
oddi wrth bawb yn siop



## HAIRLINES

Stryd Fawr, Llanberis  
Ffôn: 870328



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd  
Dda oddi wrth bawb yn



## FFARM FÊL

## YR WYDDFA



STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: 870218



Diolch am eich cefnogaeth  
drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd Dda  
oddi wrth

GRAHAM A JEAN  
A PHAWB YN Y

## PRINCE OF WALES LLANBERIS

870708

Cwrw Blasus  
Croeso Cartrefol



Adloniant  
Nos Sadwrn  
Canu Cymraeg  
efo'r Organ

Cefnogwch ein  
Hysbysebwyrr  
y Nadolig Hwn!



Nadolig Llawen  
a Blwyddyn  
Newydd Dda  
oddi wrth



BRIAN A PHAWB  
YN SIOP

## SPAR

LLANBERIS



Dewch atom am eich  
holl anghenion bwyd  
a diod Nadolig

## Padarn Lake Hotel

NADOLIG  
LLAWEN A  
BLWYDDYN  
NEWYDD DDA  
i chi oll



oddi wrth TERRY

VAL, LUCY A'R STAFF

LLANBERIS; Ffôn: 870260

Prydau arbennig ar gyfer y Nadolig

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB



ODDI WRTH



# KMP LLANBERIS

DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN



Dim bysus dydd lau / dydd Gwener 25 a 26 Rhagfyr  
na dydd lau, 1 Ionawr 1998





## PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

URDD, ADRAN BENTREF. Ar Dachwedd 4ydd mwynhaodd yr holl aelodau Gemau'r Urdd gyda Llŷr, Swyddog yr Urdd. Diolchir iddo am noson hwyliog a difyr. Dawnsio creadigol gyda Miss Jên Jones gafwyd ar Dachwedd 11, ac roedd pawb yn ymuno yn yr hwyl. Diolch o galon Miss Jones.

Daeth ymwelwyr arbennig i'r gangen ar Dachwedd 18, sef yr Heddwes Phil Griffith a'i gi ac roedd pawb yn gwrandao'n astud ac wedi llwyr ymgolli yn yr hanesion difyr. Tachwedd 25ain bydd cwis yng ngofal Dyfed Jones.

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llŷn ac Eifionydd yn 1998 apelia'r pwyllgor am wirfoddolwyr i hyfforddi unigolion a phartion ar gyfer yr Adran.

GWELLHAD. Ein dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan i Richard Williams, 20 Bryntirion a Mrs Eluned Jones, Cae Corniog, wedi eu triniaethau yn yr ysbyty yn ddiweddar. Brysiwch wella chwithau, bawb sy'n sâl yn y pentref.

CYDYMDEIMLAD. Cydymdeimoir yn ddwys iawn â Dewi Huws a'r teulu, Llys Arddun ar golli nain annwyl.

DIOLCH. Dymuna Sioned Wyn, Bryntirion ddiolch i bawb am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r anrhegion wedi'i gwaeledd yn ddiweddar. Yn yr un modd dymuna Eileen Thomas, Bron y Gaer ddiolch i bawb am bob dymuniad da wedi ei thriniaeth yn yr ysbyty.

Dymuna Siôn Bedwyr, Sycharth ddiolch i'w ffrindiau am eu galwadau ffôn, cardiau ac ymweliadau wedi'i golled drist ym marwolaeth brawychus ei ffrind agos, a brawd annwyl i Bethan, ei ddyweddi.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant mis Tachwedd a'r enillwyr lwcus oedd — 1, A. Evans, 26 Bryntirion; 2, Kevin Jones, Cae Corniog; 3, Mathew Philips, Tai Arthur.

YSGOL SUL BOSRA. Cynhelir gwasanaeth Nadolig y plant fore Sul, Rhagfyr 21ain am 10 a.m. Croeso cynnes i bawb. Gwneir casgliad at achos da.

PARTI NADOLIG YR YSGOLION SUL. Cynhelir parti Nadolig Ysgol Sul Bosra ac Eglwys y Santes Helen, nos Lun, Rhagfyr 22ain, o 3 p.m. tan 5 p.m. Bydd Siôn Corn yn siŵr o alw. Byddwn yn falch o unrhyw gyfraniadau.

CYFARCHION NADOLIG. Dymuna Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt, Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i'w theulu, cymdogion a ffrindiau.

Dymuna Jim a Margaret Munro, Tŷ Capel ddymuno Nadolig dedwydd a blwyddyn newydd dda i'w teulu, cymdogion a ffrindiau oll.

ANSAWDD LLUNIAU YR ECO. Ymddiheurn am ansawdd y lluniau yn rhifyn Tachwedd, ond rwy'n siŵr fod yr hen blant wedi adnabod eu hunain (Goheb).

YSGOL GYMUNED PENISARWAUN. I ddathlu pen-blwydd yr Ysgol Gymuned yn bum mlwydd oed fe gynhaliwyd cystadleuaeth i lunio

logo addas i'r ysgol. Roedd y gystadleuaeth yn agored i bob plentyn sy'n mynychu'r ysgol ac fe gafodd nifer o syniadau diddorol a gwreiddiol eu cynnig. Nid mater hawdd i'r panel oedd gwneud penderfyniad, ond ar ôl hen bendroni a phwyso a mesur, fe ddewiswyd cynllun Jason Snowden o flwyddyn 5 fel yr un i'w ddatblygu a'i fabwysiadu ar gyfer yr ysgol. Gwobr Jason oedd sicr am £10 o Set One, Caernarfon. Llongyfarchiadau i Jason a diolch i Set One am noddi'r gystadleuaeth. Edrychwn ymlaen i weld y logo yn ymddangos yn y dyfodol agos.

Cafwyd ymateb ardderchog i'r Apêl Bocsys Esgidiau ar gyfer plant llai ffodus na ni mewn gwledydd tramor. Pan ddaeth y lorri fawr i'w casglu fe gafodd 91 o focs eu cario iddi. Diolch i bawb a'n cefnogodd.

Fel rhan o'u thema fe aeth y Babanod, ynghyd â Miss Griffith a Miss Jones i ymweld â'r Orsaf Dân yng Nghaernarfon a chafodd y plant groeso ardderchog yn yr Orsaf, a nifer o brofiadau gwerthfawr a hwyliog. Diolch i bawb yn yr Orsaf Dân am ein croesawu.

Manteisier ar y cyfle i hysbysu ein Gwasanaeth Nadolig a gynhelir yn y Neuadd Gymunedol am 6.30 nos Fawrth, Rhagfyr 16eg, yng nghwmni'r plant a Mrs Annette Bryn Parry. Pris mynediad yw £1 trwy docyn yn unig. Cyfyngir nifer y seddau i 150 yn unig. Arian wrth archebu, os gwelwch yn dda, a'r cyntaf i'r felin... Edrychwn ymlaen i'ch croesawu ar y noson.

CINIO NADOLIG YR HENOED. Cynhaliwyd Ffair Nadolig i godi arian tuag at Ginio Nadolig i'r Henoed nos Wener, Tachwedd 21ain yn y Neuadd Gymuned. Diolchir i bawb a drefnodd ac a gefnogodd y noson.

Cynhelir y cinio brawn Sadwrn, Rhagfyr 13eg. Bydd bws wedi ei drefnu i gludo pawb i'r gwesty. Os oes unrhyw un heb roi eu henwau, a fuasech garediced â gwneud hynny rhag blaen trwy alw neu ffonio Swyddfa'r Post ym Mhenisarwaun — rhif ffôn: 871272.

DIOLCH. Dymuna Elizabeth, Carys (Cae Eboni) a theulu'r ddiweddar Megan Jones, Nidan, Llanfairpwll ddiolch i berthnasau a chyfeillion am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn eu profedigaeth lem o golli mam, mam yng nghyfraith a'n gair mor annwyl. Gwerthfawrogwyd yn fawr y llythyrau, cardiau, ymweliadau a'r galwadau ffôn a hefyd y cyfraniadau hae. Yn unol â dymuniad Megan Jones ni wnaed cyhoeddiad ynglŷn â chyfraniadau, serch hynny derbyniwyd swm sylweddol ac ynghyd â chyfraniad y teulu fe gyflwynir yr arian er budd y Ward Alaw newydd yn Ysbyty Gwynedd fel arwydd gwerthfawrogol o gymorth a chefnogaeth y staff. Diolch i'r Parchg Gerallt Lloyd Evans am ei ymweliadau a'i eiriau cysurion yn ystod y gwasanaeth. Cydnabyddir cyfraniad y gweinidogion eraill a'r organyddes,

Annette Bryn Parri. Diolch i'r meddygon, gweinyddesau cymunedol a staff y Feddygfa, Llanberis am eu gwasanaeth a'u

caredigrwydd. Diolch hefyd i William O. Williams, Brynsiencyn am y trefnu trylwyr.

## DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhos Faenol Ffôn: 871174

DIOLCH. Dymuna pwyllgor y Ganolfan ddiolch o galon i Eglwys M.C. Dinorwig am y rhodd o lestri at ddiben y Ganolfan. Diolch yn fawr iawn.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL. Gyda tymor y gaeaf yn ei anterth erbyn hyn, gyda eira cynta'r tymor wedi ymddangos ar gopa'r mynyddoedd a gweithgareddu'r tymor wedi dechrau. Cawsom agoriad rhagorol i'r Gymdeithas Lenyddol gyda Chôr Meibion Dyffryn Peris o dan arweiniad Arwel Jones a Siân Wyn Gibson, soprano. Cyfeilydd y noson oedd Mrs Hafina Jones a'r wraig wadd oedd Mrs G. Alwena Williams o Landdona. Rhoddodd Mrs Williams rodd anrhydeddus iawn i'r Gymdeithas a hefyd fe roddodd y Côr a Siân eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

Anfonwyd ein cofion at lywydd y Gymdeithas, sef Mr David John Thomas sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Plas Pen-gwaith, Llanberis; hefyd at Mr Tydfil Jones sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac sydd bellach gyda'i ferch, Margaret. Mae Tydfil yn aelod ffyddlon o'r Gymdeithas ac mae ei le'n wag ar hyn o bryd, brysia wella, Tydfil.

Talwyd y diolchiadau gan Miss Marian Jones. Roedd yn noson lwyddiannus iawn a mawr yw ein diolch i bawb a gymerodd ran.

Nos lau, 6 Tachwedd, cafwyd darlith ar y testun 'Cymeriadau' gan Mr John Hugh Hughes, Llanberis. Llywydd y noson oedd Mrs Betty Peris Roberts a chafwyd noson hynod o ddiddorol a rhyfeddwyd pawb gan gof arbennig y siaradwr. Roedd y cymeriadau mor fyw ganddo fel ein bron yn gallu eu gweld ac yn eu hadnabod. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Alice Griffiths.

Erbyn y daw'r Eco o'r wasg bydd y Parchg Gwyn Erfyl wedi bod efo ni. Dyma weithgareddau'r Gymdeithas am fis Rhagfyr: nos lau, 4 Rhagfyr am 7 o'r gloch fe fydd Mr Ralph Jones, Llanberis yn ein diddori; nos Fercher, 18 Rhagfyr ceir Carolau efo Seindorf Arian Deiniolen a bydd paned o de a mins pei i'w cael a chroeso cynnes i bawb i ymuno â ni. DIOLCHGARWCH. Cynhaliwyd yr Ŵyl Ddiolchgarwch yng Nghapel Sardis a chapel M.C. ar brynawn Sul, 19 Hydref. Yn Sardis cymerwyd y gwasanaeth gan y plant o dan arweiniad Miss Nellie Wyn Jones ac fel arfer fe wnaethant eu gwaith yn ganmoladwy iawn. Braf iawn oedd cael estyn croeso i'r Parchg Olaf Davies ar ôl ei waeledd a hyderwn y bydd yn cael llwyr iachad yn fuan.

Cymerwyd y gwasanaeth yng nghapel M.C. gan Mr John Hugh Hughes, Llanberis a braf oedd gweld aelodau o Eglwys y Santes Fair wedi ymuno yn y gwasanaeth. Diolch iddynt am eu presenoldeb a'u cyfraniad at yr achos. Diolch hefyd i'r aelodau am eu rhoddion hael a dderbyniwyd dros yr Ŵyl.

MARWOLAETH. Yn frawychus o

sydyn ar 7 Tachwedd bu farw Mr Fred Fairclough yn ei gartref, 1 Glan-y-gors. Daeth atom i fyw o Lanfairpwll. Bu'r angladd yn Amlogfa Bangor ar 12 Tachwedd. Anfonwn fel ardalwyr ein cydymdeimlad llwyraf i'w blant a'i ffrind Josie yn eu profedigaeth.

CYNGHORYDD CYMUNED. Drwg gennym ddeall fod Mr Glyn Tomos yn rhoi ei swydd o fod yn Gynghorydd Cymuned i fyny. Diolch iddo am ei waith diflino dros yr ardal am nifer o flynyddoedd. Gobeithio y bydd rhywun yn fodlon sefyll i lenwi'r swydd ac rwy'n sicr y caiff pob cefnogaeth a help gan drigolion yr ardal. Hyderwn y byddwn yn gallu rhoi enw'r Cynghorydd newydd yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Y GANOLFAN. Cafwyd cyfarfod cyhoeddus yn y Ganolfan 30 Hydref, pryd y daeth nifer dda ynghyd gyda Mr David Lloyd Hughes yn y gadair. Erbyn y dyddiad yma fe ddylai pawb fod wedi derbyn cylchlythyr gan ein bod yn ystyried ei fod yn ffordd effeithiol o sicrhau fod pob aelwyd yn Ninorwig a Fach-wen yn cael eu hysbysu o'r hyn sy'n mynd ymlaen yn y Ganolfan. Yr ydym yn gobeithio cario ymlaen gyda'r math yma o gylchlythyr ond nid ydym yn hollol sicr pa mor aml yr ymddengys.

Mae'r parti Nadolig i gymuned Dinorwig a Fach-wen i'w gynnal yn y Ganolfan nos Wener, 12 Rhagfyr o 7 hyd 11 o'r gloch yr hwyr. Mae rhagolygon am noson hwyliog iawn a bydd digon o fwyd, diod, cerddoriaeth fyw, cystadlaethau i deuluoedd a nifer o weithgareddau eraill. Mae'r tocynnau ar werth yn awr a'r pris mynediad fydd: plant dan 16 am ddim; pobl ifanc 16-18, £1; oedolion £2.50. Os ydych eisiau tocynnau — a neb wedi galw i'w gwerthu — cysylltwch â Carol Williams, pant Sardis neu Harry Edge, Ysgubor.

Gobeithir rhoi manylion yr Eisteddfod ichwi yn gynnar yn y flwyddyn newydd ac hefyd rydym yn gobeithio ailsefydlu'r 'Hwyl Haf'.

Os oes rhywun am logi'r Ganolfan mae'n rhaid — os yn bosib — rhoi pum diwrnod o rybudd er mwyn cael gwneud trefniadau ynglŷn â'r goriadau a threfnu hefyd ynglŷn â defnyddio'r llestri sydd bellach dan glo oherwydd inni golli cynifer o lestri yn ystod y chwe mis diwethaf.

Bydd cyfarfod nesaf yn gynnar yn y flwyddyn newydd, ond nid yw'r dyddiad wedi ei benderfynu hyd yn hyn.





A glywsoch chi am y farmwr Preis  
Aeth dramor am seibiant bach neis.  
Paciodd ddillad digon swel,  
I ddenu'r merched ifanc del!

Cyrhaeddodd Sbaen — y wlad boeth,  
A gwelodd genod yn hanner noeth.  
Ei gorff bach gwyn aeth i ddechra crynu  
A'r pwysedd gwaed saethodd i fyny!

Penderfynodd fynd lawr i'r traeth i dorheulo  
A phan agorodd ei lygaid methodd â choelio —  
Pob ochr iddo roedd 'na ddwy fodan handi,  
A'r ffarmwr o Bentir aeth i deimlo'n reit randi!

Ffarwelio roedd yn rhaid iddo ef a'i throi hi  
Am adref i'r ffarm gyda'i botel wisgi.  
A bellach ond atgofion sydd ganddo ar ôl  
'Di glynu ymhlith ei ben bach moel!



## Gwesty Erw Fair



**LLANBERIS**

**Ffôn 872400**

- ★ Dyddiau'n dal ar gael ar gyfer partïon Nadolig
- ★ Partïon mawr a phartïon bach

- ★ Cinio Nadolig 3 - 12 cwrw
- ★ Lle addas ar gyfer pob achlysur
- ★ Dewch i fwynhau ein bwyd blasus mewn awyrgylch braf

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Bob ac Annie Kane

## SNWCER YN Y PUMDEGAU



Ychydig iawn o luniau yn ymwneud â'r gêm boblogaidd snwcer a gafwyd yn yr *Eco*, er fod timau yn bodoli ers blyneddau yn Llanberis, Llanrug a Deiniolen. Anfonwyd y llun hwn atom gan Eifion Roberts, Becws Eryri, Llanberis. Tîm 'A' Llanberis sydd yma, tua 1954, gydag o'r chwith i'r dde: Noel Owen, Ceris Hughes, George Hughes, Raymond Burgess?, Will Penny Williams, Alun?, William John Roberts, Mr Mellor, John Roberts. Mr Thomas oedd perchennog y Clwb Snwcer yn Park Lane ar y pryd.

**PLYGU'R  
RHIFYN NESAF  
O'R ECO**

BYDDWN YN PLYGU RHIFYN Y  
NADOLIG A'R FLWYDDYN NEWYDD  
YN FESTRI EBENESER, DEINIOLEN,  
NOS IAU, 18 RHAGFYR, AM 6.30 p.m.  
RHAID FYDD CAEL CYMORTH O BOB  
PENTREF I WNEUD Y GWAITH.

CWMNI THEATR GWYNEDD yn cyflwyno

## SION BLEWYN COCH

gan **JOHN OGWEN**

Cyfarwyddwr: **GARETH LLOYD WILLIAMS**

Cynllunydd: **CHRISTOPHER GREEN**

Cyfarwyddwr Cerdd: **ANNETTE BRYN PARRI**

**ACTORION:**

**ROBIN EIDDIOR : ARWEL GRUFFYDD : WYN BOWEN HARRIES  
GWENFAIR VAUGHAN JONES : NIA MEDI : ROLANT PRYS  
NEIL WILLIAMS**



Theatr

Does yr un iâr yn saff yn y cwt! Mae'r Blewyn Coch yn ei ôl. Dewch i gael hwyl yng nghanol yr helynt. Digon o ganu a chwrsio, saethu a stŵr, baglu a bwyta.

A fydd Eban Jôs yn llwyddo i ddal y Blewyn? Bydd ambell dro annisgwyl yn y gynffon hefyd.

Sioe i'r teulu i gyd — wel, dim mynediad i bawb. Mae'n anaddas i rai dan dair wythnos oed!

**THEATR GWYNEDD, BANGOR (01248) 351708**

**Mawrth-Sadwrn 9-13 Rhagfyr :: Llun-lau 15-18 Rhagfyr**


**Gwener-Sadwrn 26-27 Rhagfyr :: Llun-Mercher 29-31 Rhagfyr**

**Gwener-Sadwrn 2-3 Ionawr 1998**



# CROESAIR RHAGFYR

Dymunaf 17 i lawr 12 ar draws a 8 i lawr i chi i gyd.



## AR DRAWS

1. Mae mwg y cop yn dueddol o ddisgyn (7)
5. Perthynas rhwng pethau na ellir eu mesur (8)
9. Hi oedd y dlysaf a welodd Osian erioed, yn ôl y gân (3,3,3)
10. Glaw trwm (6)
11. Dibwys neu anenwog (5)
13. Cyfarfod (4)

14. Ym mhle y ceir y wasg (8)
16. Na, ddyn ffôl, bydd yn dwyllodrus (8)
21. Offer a ddefnyddir i lyfnu cae wedi ei droi (4)
22. Y weithred o droi'r agoriad (5)
23. Mil yw dad!! (5)
24. Rhowch fedal i wr dewr, mae'n ymgorffori cynhaliwr (6)
25. Codi o ddail ar chwâl wna rhywbeth sy'n cydio (9)


26. Rhai creulon (8)
27. Trefedigaeth megis Patagonia (7)

## I LAWYR

1. Ymdeimlad gwladgarol (14)
2. Cymell ein gilydd (7)
3. O gipar del, meddw, rhagfarnllyd! (8)
4. Eiddil (7)
5. Yn ymwneud â mintai o gantorion (6)
6. Hances boced (5)
7. Y cyfandir mwyaf ond un (6)
15. Yn hoff o ddysgu neu astudio (8)
18. Dil a lol gwirion, y ffylaid! (7)
19. Gweddol (6)
20. Hwn sy'n cau'r botel (6)
21. Ci a choesau byr ganddo (5)

## CROESAIR TACHWEDD

Derbyniwyd pump ar hugain o atebion cywir i groesair Tachwedd. Llongyfarchiadau i Nan Owen, Llanberis; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Mary Davies, Waunfawr; Dorothy Jones, Llanrug; Enid Jones, Tal-y-sarn; Ceridwen Williams, Llanrug; Myrddin Owen, Pwllheli, Rosemary Williams, Bangor; Catherine A. Jones, Rhiw; Jean Hughes-Jones, Rhiw; G. Gill, Bangor; Mair Evans, Caernarfon; N. Hughes, Cwm-y-glo; Olwen Owen, Llanberis; Hywel Griffith, Awstralia; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Dafydd Owen, Penisarwaun; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynog Fawr; Elfed Evans, Llanllechid; Chris Roberts, Llanrug; Ceinwen Williams,



Bethel; Mair Foulkes, Penisarwaun; a Megan Wyn Jones, Bangor.

Ymgais Nan Owen, Llanberis a dynnwyd allan o'r het - £5 mis Tachwedd iddi hi.

Gyrrwch eich atebion i groesair Rhagfyr ar Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn 19 Ionawr 1998.

## DIOLCH

Dymuna Margaret Roberts (Nyrs), ei brawd y Parchg Richard Roberts a'i chwaer Mair Roberts ddiolch yn gynnes a diffuant i bawb yn nalgylch Eco'r Wyddfa am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn ystod eu profedigaeth chwerw a disyfyd. Bu'r galwadau ffôn, cardiau a llythyrau yn gysur iddynt ar ô colli Beth (Elizabeth Jane Roberts). Diolch yn fawr iawn.



Pleser o'r mwyaf yw i ni ddatgan ein diolch i

bobl Llanberis a'r cylch am eu cefnogaeth yn

ystod y flwyddyn. Mae nifer fawr o newidiadau

wedi digwydd yn ystod y flwyddyn a fu gan

gynnwys dileu y tâl mynediad i'r ganolfan, ac yr ydym yn ar agor drwy

gydol y flwyddyn - saith niwrnod yr wythnos tan Rhagfyr 23, ac o Ionawr

8 tan Pasg 1998, ddydd lau tan ddydd Sul.



Nadolig Llawn a

Blwyddyn Newydd

Gwefreiddiol

i holl ddarllenwyr

Eco'r Wyddfa

oddi wrth staff

Mynydd Gwefru

Arddangosfeydd (tan y Nadolig)

Peintiadau a Cherfluniau

gan Gareth Griffith, Gilly Thomas ac Ivor Richards.

Tyrnwyr Coed Gwynedd yn arddangos eu gwaith.

Deinosaursiaid ar Droed Cyfle i fod yn dditectif

deinosaursiaid ... dilynwyd olion eu traed i ddarganfod ble

roeddent yn byw, sut oeddent yn symud a phwy ddaeth

i ginio gyda nhw! Arddangosfa lawn cliwiau ym

Mynydd Gwefru. (Ar fenthyciad gan Amgueddfeydd ac

Orielau Cenedlaethol Cymru.)

Panad o de neu goffi yn rhad ac am ddim yn ein Siop Goffi i

oedolion sydd yn dod a chopi o'r rhifyn yma o Eco'r Wyddfa i ni yn

ystod Mis Rhagfyr 1997.



FIRST HYDRO

Nerth i'r genedl drwy Weithio a Natur

An EDISON MISSION ENERGY Company



# CHWARAEON

## 'MAN-ON', MANON

Dyna oedd y gri ar faes pêl-droed Treffynnon bythefnos yn ôl pan oedd Manon Lloyd Williams yn cynrychioli tîm dan 20 oed Cymru yn erbyn eu cyd-Geltiaid o'r Alban. Dyma'r tro cyntaf i'r ddwy wlad gyfarfod yn yr oedran yma. Mae cryn amrywiaeth oedran ar y lefel hon, dim ond tair o'r merched oedd ar eu blwyddyn olaf ac roedd wyth ohonynt yn 16 oed. Rhaid i mi gyfaddef mai dyma'r tro cyntaf i mi fentro i gêm bêl-droed merched. Cefais sgwrs â swyddogion y ddau dîm cyn y gêm. Un peth a ddeallais oedd bod y merched yn mynnu sefyll ar eu traed eu hunain a chael eu mesur yn ôl eu safonau eu hinain, yn hytrach na bod yng nghysgod y dynion. Yn hyn o beth mae'r gymhariaeth â thenis yn gwbl deg. Roedd tîm yr Alban ar ben eu digon gan fod Cymdeithas Bêl-droed yr Alban (SFA) wedi mabwysiadu trefniadaeth ac ariannu gêm y merched yn y wlad honno. Mae hynny'n eu galluogi i drefnu carfannau datblygu o'r oedran dan 12 oed ymlaen. Dyna yw'r bwriad yng Nghymru hefyd er nad yw'r un gefnogaeth ariannol ar gael. Y farn gyffredinol yw bod datblygiad y gêm yn yr Alban a Chymru ryw ddeng mlynedd ar ôl Lloegr a rhai o wledydd Ewrop. Mae Manon mewn coleg ym Manceinion ar hyn o bryd ond mae'n aelod blaenllaw o dîm merched Dinas

## GENOD BRYNREFAIL

Mae tair adran mewn chwaraeon ysgol erbyn hyn: cylch Arfon, sir Gwynedd, a rhanbarth Eryri. Eryri sy'n cynnwys siroedd Môn, Gwynedd a Chonwy. Ceir treialon ac ambell dwrnameint ar bob lefel er mwyn dewis carfannau datblygiad yn y ddwy brif gêm — pêl-rwyd a hoci.

Llwyddodd Siân Green ac Ellen Robinson i ennill eu lle yng ngharfannau dan 16 Gwynedd ac Eryri.

Mae'r cae-pob-tywydd yn amlwg yn gaffaeliad i dimau hoci'r ysgol. Bydd Gwenno Williams, Claire Jarvis, Nia Hughes a Kelly Williams yng ngharfan dan 16 Gwynedd. Bydd Llinos a Iona Williams yn y garfan dan 18.

Cynhaliwyd twrnament hoci dan 18 ysgolion Gwynedd ym Mrynrefail a'r tîm cartref fu'n fuddugol.

Yn rownd gyn-derfynol twrnament Eryri yn ddiweddarach curwyd Brynrefail gan Ysgol Eirias, Bae Colwyn a gollodd yn erbyn ysgol fonedd Penrhos/Rydal yn y rownd derfynol. Bu'n agoriad llygad i rai o'r athrawon ymarfer corff gymharu'r adnoddau a'r amser ymarfer oedd ar gael i'r ysgol fonedd. Er hynny, mae Llinos y capten, ac Iona yr is-gapten, yn awchu am gyfle i wneud yn well fyth y tymor nesaf. Mae ysbryd cystadleuol Brynrefail yn fyw o hyd!

### NOFIO

Bu'r nofwyr yn brysur hefyd. Bu pum disgybl yn cynrychioli Gwynedd yn y bencampwriaeth genedlaethol yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau i Eifion Williams (Bl. 7); Nia Williams ac Iwan Jones (Bl. 9); Elin Dafydd (Bl. 10); a Tom Hastings (Bl. 11).

Bangor. Roedd y tair aelod arall o dîm Bangor yng ngharfan Cymru, a phump o dîm Y Barri. Mae dibyniaeth Cymru ar y ddau dîm yma i'w briodoli i'r ffaith bod y ddau dîm yn chwarae mewn cynghreiriau yn Lloegr.

A'r gêm ei hun? 6-2 o blaid yr Alban, ond daeth pedair o goliau'r Alban wedi i gôlgeidwad Cymru ollwng y bêl o groesiadau. Diffyg taldra oedd yn gyfrifol am hynny. Sgoriwyd dwy gôl o safon gan Gymru, a'r ddwy sgorwraig, Ceryl Jones a Cheryl Foster yn dod o Fangor. Bydd y ddwy yma yn gobeithio cael eu dewis i dîm llawn Cymru yn eu gêm nesaf ym Mhencampwriaeth Ewrop. Bydd y gêm honno yn erbyn y Gwyddelod yn Ffordd Farrar ar Ragfyr 7fed. Mae dyfalbarhad y merched yn haeddu pob cefnogaeth.

Bydd Manon yn fodlon ar ei pherfformiad hithau. Dechreuodd yng nghanol y cae cyn gorfod symud i fod yn gefnwr de. Rhedodd yn ddiflino a gwneud ambell dacl gref



## 'COME-ON, SYR!'

Llongyfarchiadau calonnog i un o bêldroedwyr talentog yr ardal. Wedi'r Nadolig bydd cefnwr Deiniolen, Eifion Jones, yn dychwelyd i'w fro enedigol fel prifathro Ysgol Brynrefail. Dymuniadau gorau iddo, ond clywais si bod Frankie Bach ac Alan Ffarmyr yn poeni eu bod am gael 'ditensiyn' os ydynt yn cyrraedd y gêm yn hwyr. Gyda llaw, llongyfarchiadau calonnog i Ddeiniolen ar eu rhediad rhyfeddol yn ddiweddar. Mae argoelion am ambell dlws eleni. Daw tîm Helygain, sy'n gwneud yn ddan yng nghyngair Fitlock, i Lanbabo yng Nghwpan Barrit. Mae croeso cynnes yn eu haros.



Tîm dan 9 oed Bethel.



Tîm dan 11 oed Bethel.

## SEREN — DDWYWAITH

Roedd Owain Siôn o Fethel yn hynod brysur y penwythnos diwethaf. Ddydd Sul roedd yn Burry Port, ger Llanelli, yn aelod a dîm rygbi dan 14 oed Gogledd Cymru a enillodd 52-5. Cefnwr yw Owain ac mae'n chwarae'n rheolaidd i dîm dan 14 oed Caernarfon. Bu ei dad yn fachwr yn nhîm Caernarfon am gyfnod. Mae timau ieuencid Caernarfon yn chwarae ar fore Sul yn erbyn timau eraill Gwynedd. Mae chwaraeon yng ngwaed Owain gan ei fod yn bêldroediwr addawol sy'n chwarae i dîm dan 15 Bethel a thîm dan 13 Gwynedd.

Gyda llaw, nos Sadwrn roedd Owain yn Aberystwyth yn yr Ŵyl Ffilmiau yn gwylio dangosiad cyntaf y ffilm 'Y Mynydd Grug'. Ef sy'n chwarae rhan Robin, brawd Begw, yn y ffilm.



A sôn am rygbi, fyddwch chi fel fi yn rhyfeddu wrth weld doniau cynhenid tîm y Teirw Duon? Gwelir yr holl doniau ganddynt o ran ffitrwydd, pasio, taclo a chefnogi. Maent yn gosod her i wledydd eraill y byd. Os dyna yw bod yn wir broffesiynol, mae timau Ynysoedd Prydain flynyddoedd ar ei hôl hi. Gwlad debyg i Gymru yw Seland Newydd o ran nifer a maint ei chlybiau ond y gwahaniaeth yw bod plentyn sy'n chwarae rygbi yn Seland Newydd yn cael ei feithrin i chwarae mewn dull arbennig. Yr un patrwm chwarae'r clybiau a'r timau rhanbarthol. Ond does fawr o gydweled ynglŷn â phatrwm chwarae rhwng Undeb Rygbi Cymru a'r clybiau, ac mae'r canlyniadau yn anwadal.

## APÊL NADOLIGAIDD

A fyddai'r clybiau pêl-droed — ac unrhyw glwb chwaraeon arall — yn gadael i mi wybod am unrhyw weithgareddau neu gemau sydd i'w cynnal dros gyfnod y Nadolig. Gallaf wedyn roi calendr o ddigwyddiadau cyfnod y Nadolig yn y rhifyn nesaf.